Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 93/2025

DYDDIAD CYHOEDDI: 30/09/2025

# Y Warant i Bobl Ifanc: gwerthusiad proses

# Atodiadau

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-443-8

Teitl: Y Warant i Bobl Ifanc: gwerthusiad proses

Isdeitl: Atodiadau

Awduron: Dr Duncan Holtom a Rhodri Bowen gyda Emma Preece

Dyfyniad: Holtom, D. a Bowen, R. gyda Preece, E. (2025), Y Warant I Bobl Ifanc: gwerthusiad proses. Atodiadau. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 93/2025.
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/y-warant-i-bobl-ifanc-gwerthusiad-proses

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Dr Lydia Lewis

Is-adran: Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 252828

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Atodiad A. Data Ychwanegol am Bobl Ifanc sy’n NEET ........................................... 8
Atodiad B. Data ychwanegol ar raglenni dethol sy’n ffurfio’r Warant ........................ 20
Atodiad C. Ffactorau sy’n llunio galluogrwydd a chymhellion pobl ifanc a’u mynediad at gyfleoedd .......................................................................................... 41
Atodiad D. Amserlen y Warant ...................................................................... 45
Atodiad E. Amserlen gyfweld enghreifftiol i bobl ifanc ............................................ 53
Atodiad F. Holiadur enghreifftiol gwybodaeth gefndir y cyfranogwyr ........................ 58

**Rhestr o dablau**

Tabl A.1. Proffil pobl ifanc yng Nghymru sy'n NEET, data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf, 2023 ..... 10
Tabl A.2. Proffil pobl ifanc yng Nghymru sy'n NEET, data'r ABB, cyfnod o dair blynedd sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2024 ..... 10
Tabl B.1. Cyfanswm nifer y bobl ifanc lle y gwnaed o leiaf un atgyfeiriad gan wasanaeth Cymru'n Gweithio i gymorth neu ddarpariaeth sy'n ffurfio rhan o'r Warant ym mis Medi 2021 i fis Mawrth 2022, mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 ..... 21
Tabl B.2. Canrannau'r bobl ifanc 16 i 18 oed NEET sy'n ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio ym mis Medi 2021 i fis Mawrth 2022, mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 yn ôl hunaniaeth rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd ..... 22
Tabl B.3. Canrannau'r bobl ifanc 19 i 24 oed NEET sy'n ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio ym mis Medi 2021 i fis Mawrth 2022, mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 yn ôl hunaniaeth rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd ..... 23
Tabl B.4. Canran y bobl ifanc 16 i 18 oed ac 19 i 24 oed sy'n cael cymorth gwasanaeth Cymru'n Gweithio sydd â chanlyniad hyfforddiant/addysg neu gyflogaeth yn ôl hunaniaeth rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd mis Medi 2021 i fis Mawrth 2023..... 25
Tabl B.5. Nifer cyfartalog y bobl ifanc 16 i 18 oed a gafodd eu hatgyfeirio i wasanaeth Cymru'n Gweithio yn flynyddol yn ôl ffynonellau atgyfeirio, yn seiliedig ar ddata o ddwy flynedd ariannol: Mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024. ..... 26
Tabl B.6. Nifer cyfartalog y bobl ifanc 16 i 18 oed a gafodd eu hatgyfeirio i wasanaeth Cymru'n Gweithio yn flynyddol yn ôl ffynonellau atgyfeirio, yn seiliedig ar ddata o ddwy flynedd ariannol: Mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 ..... 27
Tabl B.7. Nifer y bobl ifanc (16 i 19 oed) sy'n ymgysylltu â rhaglen TSC+ gyda dadansoddiad yn ôl rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd, mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 ..... 28

Tabl B.8. Canran y bobl ifanc TSC+ (16 i 19 oed) sy'ncyflawni'r canlyniad cadarnhaol hwn, yn ôl rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd, mis Mawrth 2023 i fis Ebrill 2024........................................................................................................ 29
Tabl B.9. Pobl ifanc 16 i 24 oed a ymgysylltodd â CfW+ ym mis Mawrth 2023 i fis Ebrill 2024, gyda dadansoddiad o amcangyfrifon canrannol o'r rhain yn ôl rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd. ............................................................ 31
Tabl B.10. Cyfanswm nifer y bobl ifanc 16 i 24 oed ar y rhaglen CfW+ sy'n dechrau gwaith a chanran y bobl ifanc a ddechreuodd waith yn ôl rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd, mis Mawrth 2023 i fis Ebrill 2024. ...................................... 31
Tabl B.11. Grantiau hyfforddiant galwedigaethol ReAct+ a ddyfarnwyd i bobl ifanc, mis Mehefin 2022 i fis Mawrth 2024 a mis Ebrill 2024 i fis Medi 2024 ......... 32
Tabl B.12. Nifer y bobl ifanc a gefnogwyd gan gymhorthdal cyflog ReAct+, mis Mehefin 2022 i fis Mawrth 2024 a mis Ebrill 2024 i fis Medi 2024 ............... 32
Tabl B.13. Canlyniadau ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n cael mynediad at y Gwasanaeth Di-waith, mis Hydref 2022 i fis Mehefin 2024 ...................... 33
Tabl B.14. Pobl ifanc 16 i 24 oed sy'n gwneud cais am Grantiau Dechrau Busnes gan Busnes Cymru 2021 i 2025 gyda dadansoddiad yn ôl hunaniaeth rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd. ........................................................... 39
Tabl B.15. Nifer y bobl ifanc 18 i 24 oed sy'n hawlio neu nad ydynt yn hawlio budd-daliadau dethol bob blwyddyn a chanrannau amcangyfrifedig y bobl ifanc yng Nghymru sy'n NEET sydd naill ai'n hawlio neu nad ydynt yn hawlio budd-daliadau dethol ......................................................................... 40

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur A.1. Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru, gyda chyfyngau hyder o 95%, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2010 i fis Medi 2024 ..... 12

Ffigur A.2. Cyfraddau anweithgarwch economaidd ymhlith pobl ifanc (ac eithrio myfyrwyr) ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2010 a mis Medi 2024 ..... 13

Ffigur A.3. Canran amcangyfrifedig dynion 16 i 18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023 ..... 15

Ffigur A.4. Canran amcangyfrifedig menywod 16 i 18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023 ..... 15

Ffigur A.5. Canran amcangyfrifedig dynion 19 i 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023 ..... 16

Ffigur A.6. Canran amcangyfrifedig menywod 19 i 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023 ..... 16

Ffigur B.1. Cyfanswm nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed a ymgysylltodd â gwasanaeth Cymru'n Gweithio mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 ..... 20

Ffigur B.2. Canran y targedau ar gyfer pobl ifanc (16 i 24 oed) a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Di-waith yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (dwy ardal weithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop) ym mis Mai 2022 ..... 34

Ffigur B.3 Rhaglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd yng Nghymru gan bobl ifanc 16-24 oed, yn ôl rhywedd a math o raglen, mis Awst 2023 i fis Gorffennaf 2024 ..... 36

Ffigur B.4. Nifer y bobl ifanc 18-19 oed a 20-24 oed a ddechreuodd brentisiaethau o fis Awst 2018 i fis Gorffennaf 2024. ..... 37

Ffigur B.5. Cyfradd llwyddiant prentisiaethau ar gyfer prentisiaid 16 i 24 oed, o fis Awst 2018 i fis Gorffennaf 2024 (oedan ar 31 Awst) ..... 38

Ffigur C.1. Ffactorau sy'n llunio gallu pobl ifanc i gael mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a ffynnu ynddynt ..... 42

Ffigur C.2. Ffactorau sy'n llunio mynediad pobl ifanc at gyfleoedd cyflogaeth ......... 43
Ffigur C.3. Ffactorau sy'n llunio cymhelliant pobl ifanc i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth a manteisio arnynt ........................................................................ 44

**Rhestr termau**

| | |
|---|---|
| ADHD | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| APS | Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth |
| CFW | Cymunedau am Waith |
| CfW+ | Cymunedau am Waith a Mwy |
| GC | Gyrfa Cymru |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| EEB | Biwroau Cyflogaeth a Menter |
| EET | Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant |
| LCA | Lwfans Cynhaliaeth Addysg |
| LCC | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth |
| CGE | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| AB | Addysg Bellach |
| GSR | Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth |
| AU | Addysg Uwch |
| HESA | Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| ILO | Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol |
| JCP | Canolfan Byd Gwaith |
| TSC+ | Twf Swyddi Cymru + |
| JSA | Lwfans Ceisio Gwaith |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| LLWR | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| GR | Gwybodaeth Reoli |
| NDC | Cyflyrau Niwroddatblygiadol |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| ODPM | Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog |
| SYG | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| OoWS | Gwasanaeth Di-waith |
| PaCE | Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |

| | |
|---|---|
| SFR | Datganiad Ystadegol Cyntaf |
| SMD | Model Cymdeithasol o Anabledd |
| CC | Credyd Cynhwysol |
| WBL | Dysgu Seiliedig ar Waith |
| CG | Cymru'n Gweithio |
| Y Fframwaith | Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid |
| Y Warant | Y Warant i Bobl Ifanc |

**Nodyn Ystadegol**

Roedd y ffigurau yn yr adroddiad hwn yn gywir ar adeg ei ddrafftio.

# Atodiad A. Data ychwanegol am bobl ifanc sy'n NEET

**Nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)**

1.1. Fel y mae Adran 1 o'r adroddiad yn amlinellu, er bod y Warant yn gynnig i bob person ifanc, mae ffocws penodol ar gynorthwyo pobl ifanc sy'n NEET, neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Y tair prif ffynhonnell o ddata am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru yw:

- Y Datganiad Ystadegol Cyntaf Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur;
- yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET); ac
- Arolygon Blynyddol Hynt Disgyblion Gyrfa Cymru.

1.2. Mae gan bob un o'r gwahanol ffynonellau hyn gryfderau a gwendidau. Y Datganiad Ystadegol Cyntaf yw'r 'ffynhonnell ystadegol ddiffiniadol' ar gyfer amcangyfrifon o nifer a chyfran y bobl ifanc NEET yng Nghymru.[1] Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[2] yn darparu data mwy manwl a mwy amserol na'r gyfres flynyddol o Ddatganiadau Ystadegol Cyntaf. Fodd bynnag, nid oes modd ei gymharu'n uniongyrchol â'r Datganiad Ystadegol Cyntaf ac oherwydd ei fod yn seiliedig ar ddata arolwg, ystyrir bod yr amcangyfrifon yn llai cadarn oherwydd gwallau samplu. At hynny, mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wedi dod yn fwyfwy cyfnewidiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae gwahaniaeth cynyddol wedi bod rhwng data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Datganiad Ystadegol Cyntaf. Arolwg Blynyddol Hynt Disgyblion Gyrfa Cymru[3] yw'r unig ffynhonnell sy'n darparu amcangyfrifon ar lefel ALl, ac mae dim ond cynnwys disgyblion sy'n cael eu cynnwys yn y data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a gesglir ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae hynt disgyblion yn cael eu hadrodd yn ôl grŵp blwyddyn, fel eu

[1] Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar nifer y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion, AB, AU a chyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith (gan ddefnyddio data o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ac Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch (HESA)). Mae'r dadansoddiad hefyd yn ystyried amcangyfrifon poblogaeth a gymerwyd o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth.
[2] Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a gynhelir gan y SYG, yn arolwg mawr parhaus o aelwydydd ledled y DU sy'n cynnwys cwestiynau ar addysg a chyflogaeth, a hefyd ethnigrwydd, crefydd ac iechyd.
[3] Nod arolwg cyrchfannau Gyrfa Cymru yw nodi statws pobl ifanc a oedd wedi bod mewn addysg neu hyfforddiant yn y flwyddyn academaidd flaenorol.

gweithgarwch hysbys ar 31 Hydref ar ôl iddynt adael y grŵp blwyddyn hwnnw. Fodd bynnag, mae problemau gyda chyfraddau dim ymateb, oherwydd heriau casglu data, yn lleihau ei gadernid[4] (Llywodraeth Cymru 2025c; Llywodraeth Cymru, 2020a).

1.3. Ar adeg ysgrifennu, mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf diweddaraf sef, fel y nodwyd, y mesur a ffefrir, yn cynnwys amcangyfrifon terfynol ar gyfer 2022 ac amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2023. Fodd bynnag, ar gyfer yr adroddiad hwn rydym hefyd yn defnyddio data'r ABB i ddarparu arwydd mwy amserol o dueddiadau cyn ac ar ôl i'r Warant gael ei chyflwyno yn 2021.

1.4. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ABB) wedi gweld gostyngiad o ran maint samplau dros y blynyddoedd diwethaf. O ystyried hyn a'r ffaith nad yw'r arolwg wedi'i ailbwysoli i'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf, mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi cytuno y dylid atal achrediad rhyddhau NEET yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth dros dro ac y dylid ailddynodi'r amcangyfrifon fel ystadegau swyddogol. Mae'n dal i fod yn briodol defnyddio'r ystadegau hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi'r ansicrwydd cynyddol ynghylch amcangyfrifon sy'n deillio o'r ABB. Dylai defnyddwyr ystyried tueddiadau'r ABB ochr yn ochr â thueddiadau a gyhoeddir yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf.

[4] 'Cafwyd cynnydd mawr yn y nifer na wnaethant ateb yn y data am gyrchfannau yn 2018 oherwydd nifer o heriau wrth gasglu'r data, a wnaeth ei gwneud yn anodd cymharu'r data â blynyddoedd blaenorol. Fe wnaeth rhai problemau ynghylch peidio ag ymateb barhau yn y data ar gyfer 2019 ac fe wnaeth pandemig y coronafeirws (COVID-19) hefyd gymhlethu'r broses o gymharu data ar draws blynyddoedd o 2020.' (Llywodraeth Cymru, 2020a, dim tudalen)

*Proffil pobl ifanc NEET*

Mae Tablau A.1. ac A.2. dangos nodweddion pobl ifanc yng Nghymru sy'n NEET.

**Tabl A.1. Proffil pobl ifanc yng Nghymru sy'n NEET, data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf, 2023**

| | Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n NEET (%) | Pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed sy'n NEET (%) |
|---|---|---|
| Pawb [Nodyn 1] | 10.1 | 15.2 |
| Gwryw | 13.6 | 16.4 |
| Benyw | 6.2 | 13.9 |

Ffynhonnell: Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran (StatsCymru), Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Er cymhariaeth, mae data'r ABB, sy'n cael ei ystyried yn gyffredinol yn llai dibynadwy, yn nodi, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, amcangyfrifwyd bod 7.4% o bobl ifanc 16 i 18 oed a 16.3% o bobl ifanc 19 i 24 oed yn NEET. Mae hyn yn dangos y gwahaniaeth cynyddol rhwng data'r ABB a'r Datganiad Ystadegol Cyntaf a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2022g).

**Tabl A.2. Proffil pobl ifanc yng Nghymru sy'n NEET, data'r ABB, cyfnod o dair blynedd sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2024 [Nodyn 1]**

| | Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy’n NEET (%) | Pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed sy’n NEET (%) |
|---|---|---|
| Anabl | 19.1 | 38.7 |
| | | Pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy’n NEET (%) |
| Gwyn [Nodyn 2] | | 13.1 |
| Du, Asiaidd as ethnig leiafrifol | | 8.3 |

Ffynhonnell: Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 (Ystadegau, Dogfennu), Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Mae data ar gael hyd at fis Rhagfyr 2024, ond mae'r tabl hwn yn dangos hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024 felly gellir eu hystyried ochr yn ochr â data o raglenni mewn tablau eraill sy'n adrodd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024.


[Nodyn 2] Y grwpiau ethnig ‘Gwyn’ yw Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig a chefndiroedd Gwyn eraill, gan gynnwys Sipsi a Theithwyr Gwyddelig.

*Tueddiadau yng nghyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*

1.5. Mae data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn awgrymu, ar ôl cynyddu yn sgil y dirwasgiad mawr (2008 i 2010), bod nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru wedi gostwng dros y degawd diwethaf. Mae Ffigur A.1. yn siart llinell sy'n dangos cyfraddau NEET yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer pobl 16 i 18 a 19 i 24 oed yng Nghymru gyda chyfyngau hyder o 95%. Mae cyfraddau NEET y ddau grŵp oedran wedi gostwng yn gyffredinol dros y degawd rhwng 2014 a 2024, er gwaethaf amrywiadau ym mhob cyfres yn ystod y cyfnod hwn. O 2020, mae'r cyfyngau hyder yn ehangach ar gyfer pobl 16 i 18 oed a phobl 19 i 24 oed yn dilyn effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19) ar yr arolwg.

1.6. Yn yr un modd, mae data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf yn dangos bod cyfran y bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yng Nghymru sy'n NEET wedi gostwng dros y degawd diwethaf. Mae hefyd yn nodi, ar ôl aros yn weddol sefydlog rhwng 2010 a 2018, bod cynnydd bach wedyn yng nghyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a oedd yn NEET (gan godi o 10% yn 2018 i uchafbwynt o 14% yn 2021) ac yna gostyngiad i lefelau cyn y pandemig (Llywodraeth Cymru, 2020b, 2023e.)


**Ffigur A.1. Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru, gyda chyfyngau hyder o 95%, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2010 i fis Medi 2024**




Ffynhonnell: [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Hydref 2023 i Fedi 2024 (Ystadegau, Dogfennu), Llywodraeth Cymru]

1.7. Mae Ffigur A.2 yn helpu i ddangos sut y mae'r darlun cyffredinol hwn yn cuddio'r newidiadau amlwg yng nghyfansoddiad pobl ifanc sy'n NEET. Yn benodol, mae'n dangos bod yn ôl yr ABB, cynyddodd cyfran y dynion ifanc sy'n economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr) dros y cyfnod yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2010 i'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2024, gan godi o 14% i 18%. Mewn cyferbyniad, gostyngodd cyfran y menywod ifanc (ac eithrio myfyrwyr) a oedd yn economaidd anweithgar o 28% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2010 i 19% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2024. Yn ogystal, helpodd ymyriadau'r llywodraeth fel y cynllun ffyrlo yn ystod pandemig COVID i leihau effaith y pandemig (ac ymatebion polisi fel cyfyngiadau symud) ar ddiweithdra (gweler, er enghraifft, Murphy, 2022a). O ganlyniad, nid oedd yr ofnau ar ddechrau'r pandemig o gynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi digwydd.

**Ffigur A.2. Cyfraddau anweithgarwch economaidd ymhlith pobl ifanc (ac eithrio myfyrwyr) ar gyfer dynion a menywod rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2010 a mis Medi 2024**




Ffynhonnell: Cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn (StatsCymru), Llywodraeth Cymru

1.8. Mae'n anodd nodi'r holl ffactorau sy'n cyfrannu, a hefyd y cyfraniad y mae gwahanol ffactorau yn ei wneud, at y newidiadau mewn anweithgarwch economaidd a ddangosir yn Ffigur A.2. Mae astudiaethau'r DU wedi nodi bod cyfansoddiad pobl ifanc heb waith wedi cael ei drawsnewid dros y ddau ddegawd diwethaf (Murphy, 2022a, t. 5). Bu gostyngiadau sydyn yng nghyfran y menywod ifanc sy'n economaidd anweithgar am resymau gofal teuluol,[5] ac mae cyfraddau anweithgarwch economaidd ymhlith dynion ifanc bron wedi dyblu rhwng 1995 a 2021 (ibid.). Fodd bynnag, mae anweithgarwch economaidd oherwydd problemau iechyd hirdymor (ac yn enwedig materion problemau iechyd meddwl[6]) wedi bod yn cynyddu ar gyfer dynion ifanc a menywod ifanc (gan wrthbwyso rhai o'r gostyngiadau mewn anweithgarwch economaidd i fenywod ifanc sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau gofalu) (ibid).

[5] Mae hyn oherwydd bod menywod ifanc yn cael llai o blant, ac mae mamau ifanc yn fwy tebygol o fynd i gyflogaeth, o'i gymharu â chyfnodau cynharach (Murphy, 2022a).
[6] Er enghraifft, mae dadansoddiad o ddata'r DU yn nodi, rhwng 2006 a 2021, bod 'anweithgarwch oherwydd problemau iechyd hirdymor wedi bod yn cynyddu i ddynion a menywod ifanc' a 'the sharpest has been in inactivity due to mental health problems' (Murphy, 2022a, t. 6).

*Anweithgarwch economaidd a diweithdra ymhlith dynion ifanc a menywod ifanc*

1.9. Mae ffigurau A.3 i A.6 yn dangos cyfansoddiad newidiol pobl ifanc gwrywaidd a benywaidd sy'n NEET yng Nghymru, gan ddangos cyfran y bobl ifanc NEET yn ôl statws diweithdra neu anweithgarwch economaidd dros amser.[7]

1.10. Ffigur A.3. mae'n siart bar yn dangos y canran amcangyfrifedig o ddynion 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant nac cyflogaeth, yn seiliedig ar statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023. Mae'n dangos cynnydd mewn anweithgarwch economaidd dros amser, er bod gostyngiad yn y cyfnod diweddaraf a ddangosir.

1.11. Ffigur A.4. Mae'n siart bar yn dangos y canran amcangyfrifedig o fenywod 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant nac cyflogaeth, yn seiliedig ar statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023. Mae'n dangos cynnydd yn y ffigurau NEET hyn rhwng 2018 a 2020, ac eto rhwng 2021 a 2022, ac yna gostyngiad yn 2023. Mae hefyd yn dangos cynnydd mawr mewn anweithgarwch economaidd ar gyfer y grŵp hwn yn 2022.

1.12. Ffigur A.5. Mae'n siart bar yn dangos y canran amcangyfrifedig o ddynion rhwng 19 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant nac cyflogaeth, yn seiliedig ar statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023. Mae'n dangos cynnydd mewn anweithgarwch economaidd yn 2016 ac o 2020 ymlaen.

1.13. Ffigur A.6. Mae'n siart bar yn dangos y canran amcangyfrifedig o fenywod 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant nac cyflogaeth, yn seiliedig ar statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023. Mae'n dangos uchafbwynt yn y ffigurau NEET hyn yn 2011 ac yna gostyngiad tan 2018 gydag amrywiadau yn dilyn hyn.

---


[7] Mae diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yn fesur o ddiweithdra a ddefnyddir yn helaeth. Er mwyn bodloni'r diffiniad, rhaid i berson fod wedi bod yn ddi-waith yn yr wythnos pan wneir y mesuriad; wedi bod ar gael i dderbyn swydd yn ystod y pythefnos diwethaf; ac wedi bod yn mynd ati'n weithredol i chwilio am swydd yn y pedair wythnos diwethaf neu wedi dod o hyd i swydd sy'n dechrau mewn llai na thri mis. Er mwyn bod yn economaidd anweithgar, rhaid i berson beidio â bod yn gyflogedig, nad yw'n chwilio am waith ac/neu ddim ar gael i ddechrau gweithio o fewn pythefnos ac yn 16 oed neu drosodd.

**Ffigur A.3. Canran amcangyfrifedig dynion 16 i 18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023**





Ffynhonnell: [Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran, (StatsCymru), Llywodraeth Cymru](). Mae'r amcangyfrifon ar gyfer 2023 yn rhai dros dro.

**Ffigur A.4. Canran amcangyfrifedig menywod 16 i 18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023**





Ffynhonnell: Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran, (StatsCymru), Llywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer 2023 yn rhai dros dro.

**Ffigur A.5. Canran amcangyfrifedig dynion 19 i 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023**




Ffynhonnell: [Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran, (StatsCymru), Llywodraeth Cymru]. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer 2023 yn rhai dros dro.

**Ffigur A.6. Canran amcangyfrifedig menywod 19 i 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023**




Ffynhonnell: [Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran, (StatsCymru), Llywodraeth Cymru]. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer 2023 yn rhai dros dro.

*Y berthynas rhwng y pandemig a thueddiadau tymor hwy mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc*

1.14. Mae'r darlun sy'n cael ei gyflwyno i ni, yn un lle (fel y nodwyd) cafodd y pandemig effaith lai nag yr ofnwyd ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, ond mae'r duedd tymor hwy o gynnydd mewn gweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn bryder allweddol, ac efallai y bydd effeithiau'r pandemig yn gwaethygu'r duedd hon (ibid). Er enghraifft, nododd tystiolaeth a ystyriwyd gan yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth addysg na hyfforddiant (Llywodraeth Cymru (2024t) cyfweliadau â'r rhai sy'n ymwneud â dylunio, datblygu neu gyflawni'r Warant yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, ac arolygiadau Estyn (gweler, er enghraifft, Estyn, 2024a; Estyn 2023) i gyd adroddiadau o nifer cynyddol o bobl ifanc sydd wedi profi tarfu ar eu haddysg, sy'n gysylltiedig â'r pandemig, ac sydd:

- â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys mwy o bryder;
- wedi encilio i'w hystafelloedd;[8]
- yn cael trafferth gyda'r costau byw cynyddol; a/neu
- sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a/neu gyflyrau niwroddatblygiadol fel awtistiaeth neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) (pobl ifanc niwrowahanol).[9]

[8] Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc oedran ysgol a oedd yn cael trafferth, ac yr oedd eu rhieni neu eu gwarcheidwaid wedi dewis addysg ddewisol yn y cartref, ond a allai wedyn ei chael yn anodd ymgysylltu ag EET ôl-16.

[9] Mae niwroamrywiaeth yn disgrifio'r gwahaniaethau ar draws poblogaethau yn y ffordd y mae ymennydd pobl yn meddwl neu'n teimlo a'r gwahaniaethau yn y ffordd mae pobl yn profi'r byd. Er gwaethaf y gwahaniaethau, mae rhai grwpiau o bobl yn prosesu gwybodaeth mewn ffordd debyg a chyfeirir atynt fel rhai sydd â'r un niwroteip, ac fe'u disgrifir fel 'niwronodweddiadol' ac mae eraill yn wahanol i'r niwroteip mwyafrifol a gellir eu disgrifio fel 'niwrowahanol'. Nid yw gwahaniaeth i'r norm yn golygu y bydd pobl ifanc niwrowahanol o reidrwydd yn profi anawsterau. Serch hynny, mae'n bwysig nodi bod canlyniadau cyflogaeth cyffredinol ar gyfer grwpiau o bobl niwrowahanol, fel oedolion awtistig, yn llawer gwaeth nag ar gyfer oedolion niwronodweddiadol a hefyd yn llawer gwaeth na bron pob grŵp arall o oedolion anabl (Llywodraeth y DU, 2024b). Fel y mae Adran 9 yr adroddiad yn dangos, gall hyn adlewyrchu methiannau cymdeithasol i fod yn fwy cynhwysol o unigolion niwrowahanol.

1.15. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r rhain yn heriau newydd.[10] Er enghraifft:

- Mae arolygon y GIG yn Lloegr yn nodi bod cyfraddau o 'anhwylder meddwl tebygol' ymhlith pobl ifanc rhwng 17 a 19 oed wedi cynyddu'n sydyn rhwng 2017 a 2022, cyn dechrau gostwng ychydig rhwng 2022 a 2023 (NHS Digital, 2023).[11] Er bod y data ar iechyd meddwl pobl ifanc yng Nghymru yn gyfyngedig (Ymchwil y Senedd, 2022b), tybir bod y patrymau yng Nghymru yn debyg i'r rhai yn Lloegr. Mae'r rhagdybiaeth hon yn cael ei chefnogi gan, er enghraifft, tystiolaeth o Ddata Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN), sy'n nodi bod sgoriau pobl ifanc ar Holiadur Cryfderau ac Anawsterau wedi cynyddu rhwng 2019 a 2023, gan nodi bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu.
- Nodwyd cynnydd sydyn y nifer y bobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol cyn y pandemig ac maent wedi parhau ers hynny (Llywodraeth Cymru, 2022d).[12]
- Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn Adran 5, mae'r darlun mewn perthynas ag ADY yn llai clir (gweler er enghraifft, Ymchwil y Senedd, 2022a, 2024).

1.16. Mae'r tueddiadau hyn braidd yn groes i ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a drafodwyd uchod, sy'n dangos cynnydd cyffredinol yn nifer y bobl ifanc (16 i 24 oed) a oedd yn NEET rhwng y blynyddoedd a ddaeth i ben ym mis Medi 2020 a mis Medi 2023, ond gostyngiad wedi hynny. Mae'n bosibl bod cyfanswm nifer y bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio yn gostwng, ond o'r rhai sydd wedi ymddieithrio, mae niferoedd cynyddol wedi ymddieithrio'n ddyfnach o EET a gwasanaethau cymorth EET, ac yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar. Byddai'r dehongliad hwn yn unol ag adroddiadau gan staff mewn rhaglenni fel TSC+ (a drafodir yn Adran 7 yr adroddiad) bod difrifoldeb a/neu gymhlethdod anghenion pobl ifanc yn cynyddu. Nodir bod y materion hyn wedi cyfrannu at

[10] Mae wedi bod yn gyffredin yn y gorffennol i ddarparwyr nodi pobl ifanc sy'n wynebu anawsterau fel gorbryder, a diffyg hyder neu hunan-barch isel, a bod heb waith. Mae adolygiadau o bron ugain mlynedd yn ôl yn nodi bod gan leiafrif o bobl ifanc, yr amcangyfrifir eu bod yn 5 i 10% o'r holl oedolion ifanc, anawsterau cydgysylltiedig lluosog ac 'anghenion cydgysylltiedig cymhleth', a oedd yn gofyn am gymorth ac ymyriad gan amrywiaeth o wasanaethau gwahanol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM), 2005).

[11] Yn yr arolygon hyn, cynyddodd y cyfraddau ar gyfer pobl ifanc 17 i 19 oed sydd ag 'anhwylder iechyd meddwl tebygol' o 10.1% yn 2017 i uchafbwynt o 25.7% yn 2022, cyn gostwng ychydig i 23.3% yn 2023. Yn 2023, roedd y gyfradd ar gyfer menywod ifanc rhwng 17 a 19 oed (31.6%) ddwywaith y gyfradd ar gyfer dynion ifanc 17 i 19 oed (15.4%). Mae data'r arolwg hwn hefyd yn nodi bod gan 22% o bobl ifanc 20 i 25 oed 'anhwylder iechyd meddwl tebygol' yn 2023. (NHS Digital, 2023).

[12] Mae hyn yn gysylltiedig â mwy o ymwybyddiaeth, cydnabyddiaeth a chyffredinrwydd posibl niwrowahaniaeth ymhlith pobl ifanc (Llywodraeth Cymru 2022d).


ymddieithrio cynyddol pobl ifanc o EET ac, mewn rhai achosion, gwasanaethau cymorth EET, gan gynnwys achosion lle mae pobl ifanc yn gwrthod y cynnig cymorth (Estyn, 2023b).

# Atodiad B. Data ychwanegol ar raglenni dethol sy'n ffurfio'r Warant

### Cymru'n Gweithio

2.1. Mae ffigur B.1 yn dangos nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio ers cyflwyno'r Warant, yn 2022 i 2023 a 2023 i 2024. Yn 2023 roedd disgwyl i ymgysylltiad y rhai 18 i 24 oed barhau'n is nag yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd y penderfyniad i alluogi pobl ifanc i hunanatgyfeirio i TSC+ o fis Mai 2022 (Llywodraeth Cymru, 2024e).

**Ffigur B.1. Cyfanswm nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed a ymgysylltodd â gwasanaeth Cymru'n Gweithio mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024**




Ffynhonnell: Gyrfa Cymru: gwybodaeth reoli fewnol

Ffigur B.1. Mae'n siart bar yn dangos cyfanswm y bobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed a oedd yn gweithio gyda Chymru'n Gweithio rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, a rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024. Y ffigurau oedd 6379 o bobl 16 i 18 oed a 5841 o bobl 19 i 24 oed yn y flwyddyn ariannol 2022 i 2023 a 6915 o bobl 16 i 18 oed a 6476 o bobl 19 i 24 oed yn 2023 i 2024.

*Atgyfeiriadau o wasanaethu Cymru'n Gweithio i ddarpariaeth y Warant*

2.2. Mae Tabl B.1 isod yn amlinellu nifer y bobl ifanc a gynorthwywyd gan wasanaeth Cymru'n Gweithio, lle gwnaed o leiaf un atgyfeiriad i gymorth neu

ddarpariaeth sy'n ffurfio rhan o'r Warant, rhwng mis Medi 2021 a mis Mawrth 2024. Mae'n dangos bod nifer y bobl ifanc lle gwnaed o leiaf un atgyfeiriad wedi cynyddu dros y cyfnod hwn. Dylid nodi bod y cyfnod cyntaf (Medi 2021 i fis Mawrth 2022) yn llawer byrrach na'r ddau gyfnod arall a dylid bod yn ofalus wrth wneud unrhyw gymariaethau. Fodd bynnag, hyd yn oed gan ganiatáu ar gyfer hyn, mae cynnydd rhwng mis Medi 2021 a mis Mawrth 2022 ac yn y ddwy flynedd ganlynol, yn enwedig ar gyfer y grŵp oedran hŷn, ond mae'r cynnydd mewn perthynas â phobl ifanc 16 i 18 oed yn fach.

**Tabl B.1. Cyfanswm nifer y bobl ifanc lle y gwnaed o leiaf un atgyfeiriad gan wasanaeth Cymru'n Gweithio i gymorth neu ddarpariaeth sy'n ffurfio rhan o'r Warant ym mis Medi 2021 i fis Mawrth 2022, mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 [Nodyn 1]**

| Ystod oedran | Medi 21 - Maw 22 [Nodyn 2] | Ebrill 22 - Maw 23 | Ebrill 23 - Maw 24 |
|---|---|---|---|
| 16 i 18 | 1,215 | 2,676 | 3,216 |
| 19 i 24 | 1,012 | 4,029 | 4,746 |
| Cyfanswm | 2,227 | 6,705 | 7,962 |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru: gwybodaeth reoli fewnol

[Nodyn 1] Er enghraifft, darpariaeth addysgol fel yr un a gynigir gan golegau, hyfforddiant, drwy, er enghraifft, TSC+ neu ReAct+, cymorth cyflogadwyedd drwy, er enghraifft, CfW+ neu'r Ganolfan Byd Gwaith, neu gymorth hunangyflogaeth drwy Busnes Cymru.

[Nodyn 2] Mae'r cyfnod cyntaf hwn yn llawer byrrach na'r ddau gyfnod arall. Ar y cyfan, mae nifer yr atgyfeiriadau yn cyrraedd uchafbwynt rhwng mis Medi a mis Hydref gyda gostyngiad ym mis Rhagfyr a chynnydd o fis Ebrill i fis Awst.

2.3. Mae Tablau B.2 a B.3 yn amlinellu proffil pobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed sy'n NEET sy'n ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Er gwybodaeth, mae Tablau A.1 ac A.2 yn darparu dadansoddiad o'r holl bobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed yng Nghymru sy'n NEET yn ôl nodweddion dethol (hunaniaeth rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd). Er nad yw'r ffigurau yn Nhablau B.2 a B.3 ac A.1 ac A.2 yn rhai y gellir eu cymharu'n uniongyrchol, maent yn awgrymu cyfrannau cymharol is o fenywod ifanc a phobl ifanc anabl

NEET sy'n defnyddio'r gwasanaeth nag y gellid ei ddisgwyl, ac mae cyfran y dynion a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ymddangos yn uwch na'r disgwyl, pe na bai gwahaniaethau systemig yn y cyfraddau yr oedd y rhaglen yn ymgysylltu â phobl ifanc o bob un o'r grwpiau hyn.

**Tabl B.2. Canrannau'r bobl ifanc 16 i 18 oed NEET sy'n ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio ym mis Medi 2021 i fis Mawrth 2022, mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 yn ôl hunaniaeth rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd [Nodyn 1].**

| Nodweddion y bobl ifanc | Ymgysylltu â Cymru'n Gweithio Medi 21-Maw 22 (%) [Nodyn 2] | Ymgysylltu â Cymru'n Gweithio Ebrill 22-Maw 23 (%) | Ymgysylltu â Cymru'n Gweithio Ebrill 23-Maw 24 (%) |
|---|---|---|---|
| Benyw | 41 | 38 | 37 |
| Gwryw | 58 | 60 | 62 |
| Anabl | 7 | 7 | 7 |
| Nad yw'n anabl | 80 | 86 | 86 |
| Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. | 11 | 13 | 11 |
| Gwyn [Nodyn 3] | 87 | 85 | 87 |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru: gwybodaeth reoli fewnol.

[Nodyn 1] Mae Gyrfa Cymru yn cofnodi data hunanddatganedig ar nodweddion pobl ifanc. Dewisodd rhai pobl ifanc beidio â darparu'r wybodaeth hon, a chofnodir hyn fel 'roedd yn well ganddynt beidio â dweud'. Mewn nifer bach o achosion, mae person ifanc sy'n cael cymorth gan wasanaeth Cymru'n Gweithio heb gael ei holi eto, a chofnodir hyn fel 'nid yw'n hysbys eto'. Mae'r canrannau yn y tabl yn seiliedig ar nifer yr holl bobl ifanc sy'n nodi nodwedd benodol wedi'i rannu gan gyfanswm nifer y bobl ifanc. Yn ogystal, mewn perthynas â hunaniaeth rhywedd, mae Gyrfa Cymru yn defnyddio tri chategori: 'bechgyn', 'merched' ac 'arall' (unrhyw hunaniaeth rhywedd anneuaidd). Mae canran y bobl ifanc sy'n uniaethu fel 'unrhyw hunaniaeth rhywedd anneuaidd' yn fach iawn ac felly nid yw wedi'i chynnwys yn y tabl. Oherwydd nad yw'r ymatebion 'roedd yn well ganddynt beidio â dweud' a 'nid yw'n hysbys eto', ac yn achos rhywedd, categorïau 'arall' hefyd, wedi'u cynnwys yn y tabl, nid yw'r

canrannau'n cyfateb i 100%. Mewn perthynas â hunaniaeth rhywedd ac ethnigrwydd, mae hyn yn cyfrif am rhwng un i ddau % o'r cyfanswm. Fodd bynnag, mae'r ganran mewn perthynas ag anabledd yn uwch. Er enghraifft, yn y cyfnod mis Medi 2021 i fis Mawrth 2022, mae'n cyfrif am 13% o'r cyfanswm. Oherwydd bod data ar gyfer cyfran y bobl ifanc NEET sy'n ddynion a menywod yn nhablau A1 ac A2 yn seiliedig ar ryw, yn hytrach na hunaniaeth rhywedd, nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhyngddynt.

[Nodyn 2] Mae'r cyfnod cyntaf hwn yn llawer byrrach na'r ddau gyfnod arall. Ar y cyfan, mae'r niferoedd ymgysylltu yn cyrraedd uchafbwynt rhwng mis Medi a mis Hydref gyda gostyngiad ym mis Rhagfyr a chynnydd o fis Ebrill i fis Awst.

[Nodyn 3] Y grwpiau ethnig 'Gwyn' yw Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig a chefndiroedd Gwyn eraill, gan gynnwys Sipsi a Theithwyr Gwyddelig.

**Tabl B.3. Canrannau'r bobl ifanc 19 i 24 oed NEET sy'n ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio ym mis Medi 2021 i fis Mawrth 2022, mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 yn ôl hunaniaeth rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd [Nodyn 1].**

| Nodweddion* y bobl ifanc | Ymgysylltu â Cymru'n Gweithio Medi 21-Maw 22 (%) [Nodyn 2] | Ymgysylltu â Cymru'n Gweithio Ebrill 22-Maw 23 (%) | Ymgysylltu â Cymru'n Gweithio Ebrill 23-Maw 24 (%) |
|---|---|---|---|
| Benyw | 35 | 33 | 30 |
| Gwryw | 65 | 65 | 69 |
| Anabl | 8 | 7 | 9 |
| Nad yw'n anabl | 80 | 87 | 87 |
| Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. | 9 | 14 | 15 |
| Gwyn [Nodyn 3] | 87 | 83 | 84 |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru: gwybodaeth reoli fewnol.

[Nodyn 1] Mae Gyrfa Cymru yn cofnodi data hunanddatganedig ar nodweddion pobl ifanc. Dewisodd rhai pobl ifanc beidio â darparu'r wybodaeth hon, a chofnodir hyn fel 'roedd yn well ganddynt beidio â dweud'. Mewn nifer bach o achosion, mae person ifanc sy'n cael cymorth gan wasanaeth Cymru'n Gweithio heb gael ei holi eto, a

chofnodir hyn fel ‘nid yw'n hysbys eto’. Mae'r canrannau yn y tabl yn seiliedig ar nifer yr holl bobl ifanc sy'n nodi nodwedd benodol wedi'i rannu gan gyfanswm nifer y bobl ifanc. Yn ogystal, mewn perthynas â hunaniaeth rhywedd, mae Gyrfa Cymru yn defnyddio tri chategori: ‘bechgyn’, ‘merched’ ac ‘arall’ (unrhyw hunaniaeth rhywedd anneuaidd). Mae canran y bobl ifanc sy'n uniaethu fel ‘unrhyw hunaniaeth rhywedd anneuaidd’ yn fach iawn ac felly nid yw wedi'i chynnwys yn y tabl. Oherwydd nad yw'r ymatebion ‘roedd yn well ganddynt beidio â dweud’ a ‘nid yw'n hysbys eto’, ac yn achos rhywedd, categorïau ‘arall’ hefyd, wedi'u cynnwys yn y tabl, nid yw'r canrannau'n cyfateb i 100%. Mewn perthynas â hunaniaeth rhywedd ac ethnigrwydd, mae hyn yn cyfrif am rhwng un i ddau % o'r cyfanswm. Fodd bynnag, mae'r ganran mewn perthynas ag anabledd yn uwch. Er enghraifft, yn y cyfnod mis Medi 2021 i fis Mawrth 2022, mae'n cyfrif am 12% o'r cyfanswm. Oherwydd bod data ar gyfer cyfran y bobl ifanc NEET sy'n ddynion a menywod yn nhablau A1 ac A2 yn seiliedig ar ryw, yn hytrach na hunaniaeth rhywedd, nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhyngddynt

[Nodyn 2] Mae'r cyfnod cyntaf hwn yn llawer byrrach na'r ddau gyfnod arall. Ar y cyfan, mae'r niferoedd ymgysylltu yn cyrraedd uchafbwynt rhwng mis Medi a mis Hydref gyda gostyngiad ym mis Rhagfyr a chynnydd o fis Ebrill i fis Awst.

[Nodyn 3] Y grwpiau ethnig ‘Gwyn’ yw Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig a chefndiroedd Gwyn eraill, gan gynnwys Sipsi a Theithwyr Gwyddelig.

2.4. Mae Tabl B.4 yn amlinellu canran y bobl ifanc sy'n cael cymorth gan wasanaeth Cymru'n Gweithio ym mhob grŵp sy'n dechrau addysg neu hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'n dangos (yn ôl y disgwyl) bod cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n dechrau hyfforddiant neu addysg yn llawer uwch na'r gyfran sy'n mynd i gyflogaeth. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i wrthdroi ar gyfer y rhai 19 i 24 oed. Mae hefyd yn awgrymu bod cyfran y bobl ifanc anabl sy'n cael cymorth gwasanaeth Cymru'n Gweithio sy'n dechrau hyfforddiant neu addysg ychydig yn uwch na'r gyfran ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, mae cyfran y bobl ifanc anabl sy'n mynd i gyflogaeth yn is na'r gyfran ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn anabl.

**Tabl B.4. Canran y bobl ifanc 16 i 18 oed ac 19 i 24 oed sy'n cael cymorth gwasanaeth Cymru'n Gweithio sydd â chanlyniad hyfforddiant/addysg neu gyflogaeth yn ôl hunaniaeth rhywedd [Nodyn 1], anabledd ac ethnigrwydd mis Medi 2021 i fis Mawrth 2023 [Nodyn 1].**

| Nodweddion y bobl ifanc | Hyfforddiant/ Addysg (16 i 18 oed) (%) | Hyfforddiant/ Addysg (19 i 24 oed) (%) | Cyflogaeth (16 i 18 oed) (%) | Cyflogaeth (19 i 24 oed) (%) |
|---|---|---|---|---|
| Benyw | 48 | 8 | 26 | 40 |
| Gwryw | 40 | 5 | 28 | 40 |
| Anabl | 51 | 8 | 20 | 35 |
| Nad yw'n anabl | 43 | 6 | 28 | 41 |
| Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol | 46 | 11 | 25 | 37 |
| Gwyn [Nodyn 2] | 44 | 5 | 28 | 41 |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru: gwybodaeth reoli fewnol.

[Nodyn 1] Mae Gyrfa Cymru yn cofnodi hunaniaeth rhywedd fel hunanddatganedig gan y person ifanc, gan ddefnyddio'r categorïau 'bechgyn', 'merched', 'arall' (ar gyfer 'unrhyw hunaniaeth rhywedd anneuaidd'). Yma nid yw'r categorïau 'arall', a hefyd 'nid yw'n hysbys eto' (lle nad yw'r person ifanc wedi'i holi eto) ac 'roedd yn well ganddynt beidio â dweud' wedi'u cynnwys, o ystyried y niferoedd bach iawn yn y tri chategori hyn.

[Nodyn 2] Yn seiliedig ar olrhain pobl ifanc ar naill ai'r cyfnod 3 neu 9 mis ar ôl ymgysylltu am y tro cyntaf o ran eu 'canlyniad cadarnhaol cyntaf'. Er enghraifft, byddai canlyniad cadarnhaol yn cael ei gofnodi ar y cyfnod 3 mis pe bai'n cael ei gyflawni ar y pwynt hwnnw; i bobl ifanc nad oeddent wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol o fewn 3 mis byddai'n cael ei gofnodi pe bai'n cael ei gyflawni erbyn y cyfnod 9 mis. Nodwch na chafodd data eu casglu gan tua thraean o gwsmeriaid a oedd yn gymwys ar gyfer y Warant yn ystod y cyfnod hwn.

[Nodyn 3] Y grwpiau ethnig 'Gwyn' yw Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig a chefndiroedd Gwyn eraill, gan gynnwys Sipsi a Theithwyr Gwyddelig.

2.5. Mae Tablau B.5 a B.6 yn amlinellu sut y cafodd pobl ifanc eu hatgyfeirio i wasanaeth Cymru'n Gweithio neu sut y cawsant fynediad ato. Maent yn dangos pwysigrwydd hunanatgyfeiriadau, ac i'r rhai 16 i 18 oed, tîm Addysg Gyrfa Cymru, y Ganolfan Waith a cholegau, ac i'r rhai 19 i 24 oed, maent yn dangos pwysigrwydd y Ganolfan Waith.

**Tabl B.5. Nifer cyfartalog y bobl ifanc 16 i 18 oed a gafodd eu hatgyfeirio i wasanaeth Cymru'n Gweithio yn flynyddol yn ôl ffynonellau atgyfeirio, yn seiliedig ar ddata o ddwy flynedd ariannol: Mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024.**

| Ffynhonnell atgyfeirio | Nifer |
|---|---|
| Hunanatgyfeirio | 2659.5 |
| Tîm Addysg Gyrfa Cymru | 1382.5 |
| Canolfan Byd Gwaith | 760.0 |
| Coleg | 654.5 |
| Darparwr Hyfforddiant | 189.0 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 184.0 |
| Asiantaeth Gymorth | 116.5 |
| Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid | 108.5 |
| Ysgol | 102.5 |
| Taith Ieuenctid y Ganolfan Byd Gwaith | 99.5 |
| Arall [Nodyn 1] | 83.0 |
| Cymunedau am Waith+ | 70.5 |
| Digwyddiad | 62.5 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 59.5 |
| Darpariaeth Awdurdod Lleol | 40.5 |
| Carchar | 21.0 |
| Cyflogwr | 13.5 |
| Gwasanaeth Prawf | 11.5 |
| Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop | 8.0 |
| Hyfforddiant Cyflogadwyedd | 5.0 |
| Meddyg Teulu/Gwasanaeth Iechyd | 3.5 |
| Cymorth Tai | 3.0 |
| Sefydliad Gwirfoddol | 2.5 |
| **Cyfanswm** | **6,641** |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru: gwybodaeth reoli fewnol.

[Nodyn 1] Er enghraifft, roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau fel y Weinyddiaeth Amddiffyn, Sefydliad Pêl-droed ac Academi Cyfryngau Cymru.

**Tabl B.6. Nifer cyfartalog y bobl ifanc 16 i 18 oed a gafodd eu hatgyfeirio i wasanaeth Cymru'n Gweithio yn flynyddol yn ôl ffynonellau atgyfeirio, yn seiliedig ar ddata o ddwy flynedd ariannol: Mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024**

| Ffynhonnell atgyfeirio | Nifer |
|---|---|
| Hunanatgyfeirio | 2733.5 |
| Canolfan Byd Gwaith | 2232.0 |
| Taith Ieuenctid y Ganolfan Byd Gwaith | 265.5 |
| Carchar | 172.0 |
| Coleg | 156.0 |
| Digwyddiad | 144.0 |
| Cymunedau am Waith+ | 138.5 |
| Asiantaeth Gymorth | 84.5 |
| Tîm Addysg Gyrfa Cymru | 66.5 |
| Gwasanaeth Prawf | 59.5 |
| Arall [Nodyn 1] | 46.0 |
| Darparwr Hyfforddiant | 38.0 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 30.5 |
| Darpariaeth Awdurdod Lleol | 21.0 |
| Cyflogwr | 18.0 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 13.0 |
| Cymorth Tai | 6.5 |
| Prifysgol | 6.0 |
| Hyfforddiant Cyflogadwyedd | 4.0 |
| Ysgol | 4.0 |
| Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop | 3.5 |
| Meddyg Teulu/Gwasanaeth Iechyd | 2.5 |
| PaCE | 2.0 |
| Sefydliad Gwirfoddol | 1.0 |
| Cyngor ar Bopeth | 1.0 |
| Busnes Cymru | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **6,250** |

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru: gwybodaeth reoli fewnol.

[Nodyn 1] Er enghraifft, roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau fel y Weinyddiaeth Amddiffyn, Sefydliad Pêl-droed ac Academi Cyfryngau Cymru.

### TSC+

2.6. Mae Tabl B.7 yn amlinellu rhai o nodweddion y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â TSC+. Er gwybodaeth, mae Tablau A.1 ac A.2 yn darparu dadansoddiad o'r holl bobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed yng Nghymru sy'n NEET yn ôl nodweddion dethol (rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd). Fel yr amlinellir yn Adran 6 yr adroddiad, ystyrir bod ymgysylltu â phobl ifanc anabl ar TSC+ yn un o gryfderau allweddol y rhaglen.

**Tabl B.7. Nifer y bobl ifanc (16 i 19 oed) sy'n ymgysylltu â rhaglen TSC+ gyda dadansoddiad yn ôl rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd, mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 a mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024**

| | Ymgysylltu â TSC+ yn 2022-23 | Ymgysylltu â TSC+ yn 2023-24 |
|---|---|---|
| Pawb (pobl ifanc, dechreuwyr newydd) (nifer) | 5,345 | 5,120 |
| Nodweddion* y bobl ifanc | | |
| Benyw (%) | 47 | 46 |
| Gwryw (%) | 52 | 53 |
| Arall (%) | 1 | 1 |
| Dysgwyr heb anabledd a/neu heb anhawster dysgu (%) [Nodyn 1] | 76 | 76 |
| Dysgwyr ag anabledd a/neu anhawster dysgu (%) [Nodyn 1] | 24 | 24 |
| Du, Asiaidd as ethnig leiafrifol (%) | 6 | 6 |
| Gwyn [Nodyn 2] | 92 | 93 |

Ffynhonnell: Ystadegau Twf Swyddi Cymru+: Mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 (Ystadegau, Dogfennu), Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Nid yw'r iaith hon yn adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn.
[Nodyn 2] Y grwpiau ethnig 'Gwyn' yw Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig a chefndiroedd Gwyn eraill, gan gynnwys Sipsi a Theithwyr Gwyddelig

2.7. Fel y dengys Tabl B.8, ar tua 60%, mae cyfran y bobl ifanc sy'n cyflawni canlyniad cadarnhaol o gyfranogiad TSC+ yn uchel,[13] a phrin yw'r gwahaniaeth yng nghyfran y bobl ifanc â nodweddion gwahanol sy'n cyflawni canlyniad cadarnhaol.

**Tabl B.8. Canran y bobl ifanc TSC+ (16 i 19 oed) sy'n cyflawni'r canlyniad cadarnhaol hwn, yn ôl rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd, mis Mawrth 2023 i fis Ebrill 2024**

| Blwyddyn | Benyw (%) | Gwryw (%) | Dysgwyr ag anabledd a/neu anhawster dysgu (%) [Nodyn 1] | Dysgwyr heb anabledd a/neu heb anhawster dysgu (%) [Nodyn 1] | Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (%) [Nodyn 2] | Gwyn[14] (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022/23 | 58 | 60 | 54 | 61 | 42-62 | 59 |
| 2023/24 | 61 | 60 | 58 | 61 | 51-69 | 60 |

Ffynhonnell: [Ystadegau Twf Swyddi Cymru+: Mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 (Ystadegau, Dogfennu), Llywodraeth Cymru]

[Nodyn 1] Nid yw'r iaith hon yn adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn.

[Nodyn 2] Yn wahanol i'r rhaglenni eraill a drafodir yn yr adran hon, mae data TSC+ yn seiliedig ar wahanol grwpiau o bobl ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Fodd bynnag, dim ond y ganran, yn hytrach na nifer y bobl ifanc o wahanol grwpiau, sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol sy'n cael ei chyhoeddi. Felly, nid yw'n bosibl defnyddio'r data a gyhoeddwyd i gyfrifo cyfanswm nifer y bobl ifanc o wahanol grwpiau sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol. O ystyried y cyfyngiad hwn, mae Tabl

[13] Canlyniad cadarnhaol yw naill ai cynnydd i ddysgu ar lefel uwch, cynnydd i gyflogaeth (amser llawn, rhan-amser neu hunangyflogaeth) neu gynnydd i brentisiaeth. Ar gyfer dysgwyr anabl a/neu'r rhai sydd ag anabledd dysgu a/neu anawsterau dysgu, mae cyflogaeth am lai nag 16 awr yr wythnos hefyd yn cael ei ddosbarthu fel canlyniad cadarnhaol.
[14] Y grwpiau ethnig 'Gwyn' yw Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig a chefndiroedd Gwyn eraill, gan gynnwys Sipsi a Theithwyr Gwyddelig.

B.6 yn dangos yr amrywiaeth o fewn y grwpiau hyn, er mwyn gallu gwneud cymhariaeth â'r grŵp Gwyn o bobl ifanc.[15]

**CfW+**

2.8 Mae Tabl B.9 yn amlinellu proffil pobl ifanc sy'n ymgysylltu â CfW+. Fel y nodwyd, er gwybodaeth, mae Tablau A.1 ac A.2 yn darparu dadansoddiad o'r holl bobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed yng Nghymru sy'n NEET yn ôl nodweddion dethol (rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd). Er nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng y ffigurau yn Nhablau B.9 ac A.1 ac A.2, maent yn awgrymu'r canlynol:

- mae cyfran y bobl ifanc sy'n ddynion a'r bobl ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sy'n ymgysylltu â CfW+ yn llawer uwch nag y byddai'n ddisgwyliedig, pe na bai gwahaniaeth systemig yn y gyfradd y mae'r rhaglen yn ymgysylltu â phobl ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol NEET a phobl[16] ifanc Gwyn a oedd yn NEET.
- Mae cyfran y cyfranogwyr sy'n anabl sy'n ymgysylltu â CfW+ yn is nag y byddai'n ddisgwyliedig pe na bai gwahaniaeth systemig yn y gyfradd y mae'r rhaglen yn ymgysylltu â phobl ifanc anabl NEET a phobl ifanc nad oeddent yn anabl ac a oedd yn NEET.
- Nid oes cynrychiolaeth ddigonol o fenywod ifanc ar y rhaglen.

[15] Yn 2022/23 y grŵp Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol â'r ganran isaf o ganlyniadau cadarnhaol oedd pobl ifanc o 'grwpiau ethnig eraill' a'r grŵp â'r ganran uchaf o ganlyniadau cadarnhaol oedd y grŵp o bobl ifanc Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig / Du Cymreig. Yn 2023/24 roedd y grŵp â'r ganran isaf o ganlyniadau cadarnhaol unwaith eto yn 'grŵp ethnig arall'. Fodd bynnag, y grŵp â'r ganran uchaf o ganlyniadau cadarnhaol oedd 'cymysg/grwpiau aml-ethnig'.

[16] Y grwpiau ethnig 'Gwyn' yw Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig a chefndiroedd Gwyn eraill, gan gynnwys Sipsi a Theithwyr Gwyddelig.

**Tabl B.9. Pobl ifanc 16 i 24 oed a ymgysylltodd â CfW+ ym mis Mawrth 2023 i fis Ebrill 2024, gyda dadansoddiad o amcangyfrifon canrannol o'r rhain yn ôl rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd.**

| | Cyfranogwyr CfW+ 16 i 24 oed 2023-24 |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y bobl ifanc a ymgysylltodd (nifer) | 4,870 |
| Nodweddion y bobl ifanc | |
| Benyw (%) | 30 |
| Gwryw (%) | 70 |
| Nad yw'n anabl (%) | 90 |
| Anabl (%) | 9 |
| Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (%) | 16 |
| Gwyn (%) | 83 |

Ffynhonnell: CFW+: gwybodaeth reoli fewnol

2.9 Fel y dengys Tabl B.10, yn 2023 i 24, aeth 39% o bobl ifanc a gefnogwyd gan CfW+ i gyflogaeth. Fodd bynnag, roedd cyfran y bobl ifanc anabl a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a ymgysylltodd â'r rhaglen a ddechreuodd gyflogaeth yn is na'r gyfran ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn anabl a phobl ifanc Wyn[17] yn y drefn honno.

**Tabl B.10. Cyfanswm nifer y bobl ifanc 16 i 24 oed ar y rhaglen CfW+ sy'n dechrau gwaith a chanran y bobl ifanc a ddechreuodd waith yn ôl rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd, mis Mawrth 2023 i fis Ebrill 2024.**

| Cyfanswm y nifer a ddechreuodd swydd (nifer) | Benyw (%) | Gwryw (%) | Nad yw'n anabl (%) | Anabl (%) | Gwyn (%) | Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1,908 | 39 | 39 | 41 | 28 | 40 | 34 |

Ffynhonnell: CFW+: gwybodaeth reoli fewnol

[17] Y grwpiau ethnig 'Gwyn' yw Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig a chefndiroedd Gwyn eraill, gan gynnwys Sipsi a Theithwyr Gwyddelig.

**ReAct+**

2.10. Rhwng mis Mehefin 2022 a mis Medi 2024, cefnogodd rhaglen ReAct+ 4,846 o gwsmeriaid, ac roedd 14.8% (713) ohonynt rhwng 18 a 24 oed. Darperir manylion ychwanegol ar (a) dyfarnu grantiau hyfforddiant galwedigaethol i bobl ifanc; a (b) pobl ifanc a gefnogir gan y cymhorthdal cyflog yn nhablau B.11 a B.12. Nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng y ddau gyfnod o amser a gyflwynwyd, gan eu bod yn cwmpasu gwahanol hydau o amser, a gwnaed newidiadau i'r rhaglen ym mis Ebrill 2024.[18]

**Tabl B.11. Grantiau hyfforddiant galwedigaethol ReAct+ a ddyfarnwyd i bobl ifanc, mis Mehefin 2022 i fis Mawrth 2024 a mis Ebrill 2024 i fis Medi 2024**

| Cyfnod | Mis Mehefin 2022 i fis Mawrth 2024 | Mis Ebrill 2024 i fis Medi 2024, |
|---|---|---|
| Oedran pobl ifanc | 18 i 24 | 20 i 24 |
| Nifer y grantiau hyfforddiant galwedigaethol a ddyfarnwyd | 493 | 64 |

Ffynhonnell: ReAct+: gwybodaeth reoli fewnol

**Tabl B.12. Nifer y bobl ifanc a gefnogwyd gan gymhorthdal cyflog ReAct+, mis Mehefin 2022 i fis Mawrth 2024 a mis Ebrill 2024 i fis Medi 2024**

| Cyfnod | Mis Mehefin 2022 i fis Mawrth 2024 | Mis Ebrill 2024 i fis Medi 2024 |
|---|---|---|
| Oedran pobl ifanc | 18 i 24 | 20 i 24 |
| Nifer y bobl ifanc a gefnogwyd gan y cymhorthdal cyflog | 153 | 3 |
| Pobl ifanc a gefnogwyd fel % o'r holl gyfranogwyr | 22 | 10 |

Ffynhonnell: ReAct+: gwybodaeth reoli fewnol

[18] Yn hanesyddol, mae rhaglenni cymorth dileu swydd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cymhorthdal cyflog i gyflogwyr gyflogi recriwt newydd cymwys ac ym mis Mehefin 2022, rhoddwyd 'cynnydd' i gymhorthdal cyflog ReAct+ i gyflogwyr a recriwtiodd berson ifanc 18 i 24 oed. Ym mis Ebrill 2024, codwyd yr oedran pan mae pobl ifanc yn gymwys i gael cymorth ReAct+ i 20. Yn ogystal, o fis Ebrill 2024, cafodd y cymhorthdal cyflog ei ddileu ac eithrio cyflogwyr sy'n recriwtio person anabl. Mae rhagor o fanylion am y cymorth a'r meini prawf cymhwystra ar gael yn ReAct Plws.

### Y Gwasanaeth Di-waith

2.11. Mae data rheoli mewnol yn nodi, rhwng mis Hydref 2022 pan ddechreuodd y Gwasanaeth Di-waith newydd a mis Mehefin 2024, roedd 1,701 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed NEET wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth (gweler Tabl B.13). Fel yr amlinellir yn Ffigur B.2. nododd y gwerthusiad o'r Gwasanaeth Di-waith, cyn ei ddechrau newydd ym mis Hydref 2023, fod perfformiad mewn perthynas â thargedau canlyniadau ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed yn gymysg, wedi'i gysylltu'n rhannol â chyfraddau gadael uchel (Llywodraeth Cymru, 2023c).


**Tabl B.13. Canlyniadau ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n cael mynediad at y Gwasanaeth Di-waith, mis Hydref 2022 i fis Mehefin 2024**

| | Cyfranogwyr | Aethant i ddysgu pellach [Nodyn 1] | Enillwyd cymhwyster neu dystysgrif sy'n gysylltiedig â gwaith | Cwblhawyd lleoliad profiad gwaith neu wirfoddoli | Dechreuwyd cyflogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 1,701 | 100 | 403 | 216 | 134 |
| Canran | 100 | 6 | 24 | 13 | 8 |

Ffynhonnell: Gwasanaeth Di-waith: gwybodaeth reoli fewnol

[Nodyn 1] Gan gynnwys prentisiaethau

**Ffigur B.2. Canran y targedau ar gyfer pobl ifanc (16 i 24 oed) a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Di-waith yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (dwy ardal weithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop) ym mis Mai 2022**




Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru, 2023c]

Ffigur B.2. mae siart bar yn dangos canran y targedau ar gyfer pobl ifanc (16 i 24 oed) a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Di-waith yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (y ddwy ardal weithredol ESF) ym mis Mai 2022. Mae ffigurau ar gyfer 'ennill cymwysterau' yn uchel, sef 133% a 115% yn y drefn honno, ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Mae ffigurau ar gyfer y categorïau eraill, 'mynd i mewn i addysg a hyfforddiant', 'mynd i mewn i gyflogaeth' a 'chwblhau profiad gwaith neu wirfoddoli' yn is, yn enwedig ar gyfer y cyntaf o'r tri chategori hyn.


**Prentisiaethau**

2.12. Fel y dengys ffigur B.3, mae data ar rywedd dysgwyr ar wahanol fathau o brentisiaethau rhwng 16 a 24 oed yn awgrymu niferoedd anghymesur o brentisiaid gwrywaidd a benywaidd ar gyrsiau mewn rhai sectorau . Er enghraifft, ym mlwyddyn academaidd 2023 i 2024 dechreuodd 120 o fenywod gwrs peirianneg o'i gymharu â 1,635 o ddysgwyr gwrywaidd. Mae mesurau eraill o'r un ffynhonnell hefyd yn awgrymu tangynrychiolaeth neu orgynrychiolaeth rhai grwpiau; er enghraifft:

- Hunan-nododd 13% o ddysgwyr 16 i 24 oed a ddechreuodd brentisiaethau fod ganddynt anabledd neu anabledd dysgu[19] yn 2023/24. Gellir cymharu hyn â ffigurau Cyfrifiad 2021 sy'n dangos bod 17.9% o fenywod rhwng 20 a 24 oed yn anabl, a bod 13.5% o ddynion rhwng 20 a 24 oed yn anabl (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023).
- Mae cyfran y dysgwyr o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16-24 oed sy'n dechrau rhaglenni dysgu prentisiaethau yn y flwyddyn academaidd wedi cynyddu'n raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o 2% yn 2018/19 i 4% yn 2023/24. Fodd bynnag, mae'r gyfradd hon yn sylweddol is na'r gyfran amcangyfrifedig o bobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn y boblogaeth[20] (9%) (Llywodraeth Cymru, 2022h).

[19] Nid yw'r iaith hon yn adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn. Dylid nodi y gall hunan-nodi yma olygu bod tan-adrodd.
[20] Er y dylid nodi bod hyn yn seiliedig ar ffigurau ar gyfer y boblogaeth gyfan, nid dim ond y rhai 16 i 24 oed.

**Ffigur B.3. Siart bar yn dangos rhaglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd yng Nghymru gan bobl ifanc 16 i 24 oed, yn ôl rhywedd a math o raglen, mis Awst 2023 i fis Gorffennaf 2024 [Nodyn 1]**





Ffynhonnell: [Rhaglenni dysgu sy'n dechrau mewn darpariaeth dysgu seiliedig ar waith (StatsCymru), Llywodraeth Cymru]

[Nodyn 1] Mae nifer bach o ddysgwyr nad ydynt wedi'u nodi fel gwryw neu fenyw.

2.13. Fel y dengys Ffigur B.4., roedd nifer y bobl ifanc 20 i 24 oed a ddechreuodd brentisiaethau wedi gostwng yn eithaf sydyn yn 2019/20, a gostwng eto yn 2023/24. Gostyngodd nifer y bobl ifanc 18 i 19 oed a ddechreuodd brentisiaeth yn 2019/20 a 2020/21, ac adfer rhywfaint o 2021/22 ymlaen.


**Ffigur B.4. Siart llinell yn dangos nifer y bobl ifanc 18-19 oed a 20-24 oed a ddechreuodd brentisiaethau o fis Awst 2018 i fis Gorffennaf 2024**




Ffynhonnell: [Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd fesul chwarter, sector a'r math o raglen (StatsCymru), Llywodraeth Cymru]

2.14. Fel y dengys Ffigur B.5., yn dilyn gostyngiad mewn cyfraddau llwyddiant prentisiaethau yn 2021/2022, bu cynnydd cyson yn y gyfradd llwyddiant yn 2022/23 a 2023/24, er ei bod yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

**Ffigur B.5. Siart bar yn dangos cyfradd llwyddiant prentisiaethau ar gyfer prentisiaid 16 i 24 oed, o fis Awst 2018 i fis Gorffennaf 2024 (oedan ar 31 Awst) [Nodyn 1]**




Ffynhonnell: [Llwyddiant mewn prentisiaethau, yn ôl blwyddyn academaidd a grŵp oedran (StatsCymru), Llywodraeth Cymru]

[Nodyn 1] Cafodd y mesurau canlyniadau prentisiaethau eu hatal dros dro yn 2019/20 a 2020/21 oherwydd tarfu'r pandemig.

**Gwasanaeth Syniadau Mawr Cymru Busnes Cymru**

2.15. Nododd data o fis Chwefror 2025 fod 2,212 o ddatganiadau o ddiddordeb yn y Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc wedi'u gwneud, gyda 621 o geisiadau wedi'u cymeradwyo. Mae Tabl B.14 yn rhoi rhagor o fanylion am nodweddion pobl ifanc a wnaeth gais am grantiau Dechrau Busnes. Mae'r tabl y dangos graddfa gymharol fach y rhaglen. Yn ogystal, fel y nodwyd uchod, er gwybodaeth, mae Tablau A.1 ac A.2 yn darparu dadansoddiad o'r holl bobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed yng Nghymru sy'n NEET yn ôl nodweddion dethol (hunaniaeth rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd). Er nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng Tablau B.14 ac A.1 ac A.2, mae'r ffigurau'n awgrymu bod cyfran y bobl ifanc anabl sy'n cael mynediad at y rhaglen yn is na'r disgwyl, pe na bai gwahaniaethau systemig yn y gyfradd yr oedd pobl ifanc anabl a phobl ifanc nad oeddent yn anabl yn gwneud cais am grantiau Dechrau Busnes.

**Tabl B.14. Pobl ifanc 16 i 24 oed sy'n gwneud cais am Grantiau Dechrau Busnes gan Busnes Cymru 2021 i 2025 gyda dadansoddiad yn ôl hunaniaeth rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd**

| | Ceisiadau Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc |
|---|---|
| Cyfanswm (nifer y bobl ifanc a gefnogwyd) [Nodyn 1] | 621 |
| Nodweddion y bobl ifanc a gefnogwyd (%) | |
| Benyw [Nodyn 2] | 52 |
| Gwryw [Nodyn 2] | 41 |
| Anneuaidd | 1 |
| Nad yw'n anabl | 90 |
| Anabl | 10 |
| Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol | 8 |
| Gwyn | 92 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru: gwybodaeth reoli fewnol Busnes Cymru

[Nodyn 1] Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer y bobl ifanc y barnwyd bod eu ceisiadau'n gymwys a'u hanfon i'r panel. Yna cafodd 99% o'r rhain eu cymeradwyo gan y panel. Rydym yn defnyddio hyn fel mesur procsi ar gyfer ymgysylltu â'r cynllun grant. Mae data ar nodweddion pobl ifanc yn seiliedig ar y ceisiadau hyn.

[Nodyn 2] Ymddengys nad yw 6% o ymgeiswyr wedi rhoi ymateb i'r cwestiwn ar eu hunaniaeth rhywedd. Mae'r data ar gyfer cyfran y bobl ifanc NEET sy'n ddynion a menywod yn nhablau A1 ac A2 yn seiliedig ar ryw, yn hytrach na hunaniaeth rhywedd, ac felly nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhyngddynt.

### Yr Adran Gwaith a Phensiynau

2.16. Fel yr amlinellir yn Nhabl B.15, yr amcangyfrifon a gynhwyswyd yn yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cymorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (Llywodraeth Cymru, 2024t) oedd mai dim ond tua hanner y bobl ifanc 18 i 24 oed sy'n NEET ac yn gymwys i gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth sy'n derbyn y rhain.

**Tabl B.15. Nifer y bobl ifanc 18 i 24 oed sy'n hawlio neu nad ydynt yn hawlio budd-daliadau dethol bob blwyddyn a chanrannau amcangyfrifedig y bobl ifanc yng Nghymru sy'n NEET sydd naill ai'n hawlio neu nad ydynt yn hawlio budd-daliadau dethol [Nodyn 1]**

| Pobl ifanc | Nifer y bobl ifanc 18-24 oed | Canran amcangyfrifedig y bobl ifanc 18-24 oed sy'n NEET sydd naill ai'n hawlio neu nad ydynt yn hawlio pob budd-dal [Nodyn 2] |
|---|---|---|
| Hawlio JSA | 3,486 | 8 |
| Hawlio ESA | 11,064 | 25 |
| Hawlio JSA a CC | 10,205 | 23 |
| Hawlio CC (ddim yn hawlio JSA) | 6,719 | 15 |
| Ddim yn hawlio ESA na JSA | 29,550 | 67 |
| Ddim yn hawlio ESA, JSA na CC | 22,831 | 51 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2024b

[Nodyn 1] Mae nifer y bobl ifanc sy'n hawlio pob math o fudd-dal yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd sy'n cwmpasu nifer y bobl ifanc sy'n hawlio pob math o fudd-dal yn y blynyddoedd calendr 2016, 2017 a 2018.

[Nodyn 2] Gweler Llywodraeth Cymru, 2024t, Atodiad C, tt. 112 – 115 am ddisgrifiad o'r fethodoleg.


## Atodiad C. Ffactorau sy'n llunio galluogrwydd a chymhellion pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd

3.1. Defnyddiwyd y cyfweliadau â phobl ifanc, a drafodir yn Adran 9 yr adroddiad, i nodi amrywiaeth eang o ffactorau sy'n llunio galluoedd a chymhellion pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd. Cyflwynir rhagor o fanylion am y ffactorau hyn a hefyd y berthynas rhwng y ffactorau hyn, a galluoedd a chymhellion pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd, yn ffigurau C.1, C.2 a C.3 .


3.2. Fel yr amlinellir yn yr allwedd isod, mae effaith pob ffactor a nodwyd gan bobl ifanc wedi'i chodio mewn lliw a llinell i ddangos a yw'r effaith yn gadarnhaol ar y cyfan, yn negyddol ar y cyfan neu a all fod yn gadarnhaol neu'n negyddol. Yn ogystal, gosodir ffactorau mwy eithaf ar ymyl pob ffigur a gosodir ffactorau mwy agos yn fwy agos at ganol pob ffigur.




**Ffigur C.1. Ffactorau sy'n llunio gallu pobl ifanc i gael mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a ffynnu ynddynt**



**Ffigur C.2. Ffactorau sy'n llunio mynediad pobl ifanc at gyfleoedd cyflogaeth**



**Ffigur C.3. Ffactorau sy'n llunio cymhelliant pobl ifanc i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth a manteisio arnynt**



## Atodiad D. Amserlen y warant[21]

**Cyn y Warant (er enghraifft)**

Yn dilyn cymorth dileu swydd pwrpasol Llywodraeth Cymru a ddechreuodd ym 1999, cafwyd sawl fersiwn o gymorth ReAct.

Hyfforddeiaethau a lansiwyd yn 2015

Twf Swyddi Cymru (TSC) a lansiwyd yn 2015

Cymunedau am Waith (CfW) a lansiwyd yn 2015

Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+) a lansiwyd yn 2018

Y Gwasanaeth Di-waith a lansiwyd ym mis Awst 2016

Cymru'n Gweithio (gan gynnwys y Canfyddwr Cymorth) a lansiwyd ym mis Mai 2019

**Mehefin 2021**

Cyhoeddwyd cynlluniau'r Warant ym mis Mehefin 2021 i 'helpu i sicrhau nad oes cenhedlaeth goll' yn dilyn y pandemig'. Cymru'n Gweithio fydd 'y porth ar gyfer y Warant'[22]; 'bydd y deialog a'r cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, darparwyr addysg, y sector hyfforddiant, cyflogwyr ac awdurdodau cyhoeddus yn cael eu cryfhau drwy ehangu ein gwaith o amgylch y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.' 'Bydd darparwyr gwaith a sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol o bob cwr o Gymru yn cael eu gwahodd i gysylltu â Cymru'n Gweithio fel y gall prosiectau ffurfio rhan o'r cynnig.' (Llywodraeth Cymru, 2021, dim tudalen.).

**Medi 2021**

Cyhoeddwyd Adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

**Hydref 2021**

Lansiwyd ymgyrch Bydd Bositif 'i godi ymwybyddiaeth o'r Warant i Bobl Ifanc ac i annog pobl ifanc i fod yn hyderus ac i gael eu hysgogi gan eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol' (Llywodraeth Cymru, 2021, dim tudalen.)

---

[21] Mae'r wybodaeth am gyllid yn cyfeirio at rai ffigurau cyhoeddedig ac nid yw'n cynnwys yr holl ddyraniadau cyllid.

[22] Fel yr amlinellir yn Adrannau 6, 7 ac 11 yr adroddiad, er mai dyma sut y cyflwynwyd Cymru'n Gweithio, ni fwriadwyd erioed i Cymru'n Gweithio fod yr unig borth i'r Warant.

**Tachwedd 2021**

'Lansio Cam 1 y Warant: (Tachwedd 21), gan ganolbwyntio ar 'wella'r ddarpariaeth cyflogadwyedd a sgiliau' (Llywodraeth Cymru, 2021b, para 280). Fe'i disgrifir fel 'pecyn cynhwysfawr [sy'n] tynnu ynghyd raglenni sydd wedi'u cynllunio i ddarparu'r gefnogaeth iawn ar yr amser iawn yn ôl anghenion amrywiol pobl ifanc ledled Cymru'. Mae'r cynnig cychwynnol yn cynnwys:

- mynediad at y Warant drwy Cymru'n Gweithio;
- mynediad at gymorth cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio sy'n bodoli eisoes;[23]
- 'hyfforddiant a chymhellion cyflog drwy raglen ReAct';[24]
- lleoedd ar raglenni cyflogadwyedd cymunedol (fel CfW);
- cyngor a chymorth hunangyflogaeth drwy Syniadau Mawr Cymru;
- 'hyfforddeiaethau sy'n darparu profiad gwaith a hyfforddiant';[25]
- 'cymorth i ddod o hyd i brentisiaeth'; ac
- atgyfeiriad i bartneriaid' (er enghraifft darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau / awdurdodau lleol) (ibid.).

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn dechrau digwyddiadau ymgysylltu ac yn cynllunio gweithgarwch i lunio darpariaeth y Warant yn eu hardaloedd.

Lansiwyd Cynllun Peilot Cyllidebu'r Warant gan gydnabod 'y rhwystrau cymhleth y gallai rhai unigolion eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar gymorth. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i dargedu cyllid yn well a chymryd camau lliniaru yn erbyn effeithiau anfwriadol.' (Llywodraeth Cymru, 2022a, dim tudalen)

[23] Mae hyn yn cynnwys: gwybodaeth, cyngor ac arweiniad proffesiynol a diduedd ynghylch gyrfaoedd; help gydag ysgrifennu CV, llythyrau eglurhaol, technegau cyfweliad a dod o hyd i swyddi; cyngor ar chwilio am swydd gyntaf, dychwelyd i waith, neu newid cyfeiriad gyrfa; cymorth i chwilio am brentisiaethau yng Nghymru a gwneud cais amdanynt; atgyfeiriadau i'r ddarpariaeth a'r cymorth ehangach mwyaf priodol, gan gynnwys rhaglenni Llywodraeth Cymru fel ReAct+, Twf Swyddi Cymru+ a Chyfrifon Dysgu Personol; helpu i uwchsgilio, cael mynediad at hyfforddiant a gwneud cais am gyllid; bwletin swyddi sy'n darparu mynediad at swyddi gwag byw ac sy'n anfon swyddi gwag wedi'u personoli i fewnflwch unigolyn yn rheolaidd; cymorth i'r rhai yn y system gyfiawnder ac i'r rhai sy'n ceisio noddfa.

[24] Mae'r datganiad gan y Gweinidog hefyd yn cyhoeddi y bydd ReAct+ yn cymryd lle ReAct cyn bo hir.

[25] Cafodd hyfforddeiaethau eu disodli (ynghyd â rhaglen wreiddiol Twf Swyddi Cymru) gan Twf Swyddi Cymru+ ym mis Ebrill 2022.

**Rhagfyr 2021**
Sefydlu Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid y Warant.

**Ionawr 2022**
Defnyddiwyd ymgyrch Yn Gefn i Chi i godi ymwybyddiaeth o gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau a chefnogi ymgysylltiad cyflogwyr â'r Warant, gan adeiladu ar y rhaglenni cychwynnol a lansiwyd ym mis Mawrth 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021d).

**Mawrth 2022**
Cyhoeddi cyllid i gefnogi iechyd meddwl a llesiant dysgwyr mewn prentisiaethau a hyfforddeiaethau (Llywodraeth Cymru, 2022b).

**Ebrill 22**
Cylidd ychwanegol ar gyfer CfW+ (gan adeiladu ar y cynnydd a oedd yn bodoli eisoes er mwyn helpu'r rhaglen i ymateb i'r pandemig).
Lansiwyd TSC+ er mwyn 'darparu hyfforddiant, datblygiad a chymorth cyflogadwyedd unigol i bobl ifanc 16 i 18 oed' NEET (gan gymryd lle Hyfforddeiaethau a Thwf Swyddi Cymru 2). Mae manyleb rhaglen newydd TSC+ 'yn cynnwys camfeydd y mae'n rhaid i Gontractwyr gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu o ganlyniad i anawsterau a brofir gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd' (Llywodraeth Cymru 2023c, t. 10).

**Mai 2022**
Mae'r Warant yn rhan ganolog o Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau (Llywodraeth Cymru, 2022c) gyda'r bwriad o helpu 'pobl ifanc i wireddu eu potensial' (ibid., t. 14).

**Mehefin 2022**
Cam 1 y Sgwrs Genedlaethol: dechreuwyd grwpiau ffocws a gwaith arolygu (Llywodraeth Cymru, 2023d).

Lansiwyd ReAct+ i gynnig cymorth wedi'i deilwra i'r rhai 18 oed a throsodd sy'n ceisio ailymuno â'r farchnad lafur drwy ddileu rhwystrau a darparu cymorth grant ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol, costau teithio a llety a gofal (gan gynnwys gofal plant) sy'n gysylltiedig â hyfforddiant. Cyflwyno 'cynnydd' i'r cymhelliant cyflog (cymhorthdal) i gyflogwyr sy'n recriwtio person ifanc.

**Gorffennaf 2022**

Lansiwyd Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc (£2,000) 'i alluogi pobl ifanc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i ddechrau eu busnes eu hunain, creu menter gymdeithasol, dod yn hunangyflogedig, yn weithiwr llawrydd neu'n entrepreneur cymdeithasol yng Nghymru' fel rhan o Syniadau Mawr Cymru (Busnes Cymru, 2024, dim tudalen).

**Awst 2022**

Buddsoddi mewn Biwroau Cyflogaeth a Menter i wella a hyrwyddo rôl y Biwro Cyflogaeth ymhellach (gan gynnwys ymgorffori entrepreneuriaeth yn y Biwro). Mae'r Biwroau Cyflogaeth a Menter yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol i ddarparu pecyn o gyfleoedd i ddysgwyr er mwyn helpu i feithrin sgiliau cyflogadwyedd a menter hanfodol, darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi canlyniad cyflogaeth neu hunangyflogaeth cadarnhaol (Llywodraeth Cymru, 2022d, t. 1, 2022e).

**Medi 2022**

Lansio Canllawiau wedi'u hadnewyddu ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid (Llywodraeth Cymru, 2022f).

**Hydref 2022**

Gwasanaeth Di-waith newydd yn dechrau, gan olynu'r gwasanaeth a ariannwyd gan Ewrop a ddaeth i ben ym mis Awst 2022.

**Hydref – Rhagfyr 2022**

Trafodaethau pellach gyda phobl ifanc fel rhan o Gam 1 y Sgwrs Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023d).

**Ionawr 2023**
Lansio Cam 2 o'r prosiect Ewch i mewn i Dai. Nod y prosiect yw ehangu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth yn y sector tai, yn enwedig i bobl ifanc o gefndiroedd amrywiol sy'n wynebu diweithdra hirdymor (CCHA, 2022).
Lansiwyd Cam 2 a 3 o'r Sgwrs Genedlaethol (yn rhedeg tan fis Gorffennaf 2023) (Llywodraeth Cymru, 2024c).

**Mawrth – Ebrill 2023**
Darparwyd cyllid ychwanegol:
- ar gyfer colegau AB i leihau'r risg y bydd dysgwyr yn dod yn NEET. Mae hyn yn rhoi cymorth ar gyfer ymyriadau cynnar ac yn rhoi mwy o amser i staff gynorthwyo dysgwyr mewn perygl.
- cynorthwyo iechyd a llesiant dysgwyr prentisiaeth, staff a sefydliadau.
- cynorthwyo pontio blwyddyn 10/11 (Llywodraeth Cymru, 2024a).

Daeth rhaglen Cymunedau am Waith i ben; cyhoeddwyd cyllid ychwanegol ar gyfer CfW+ (Llywodraeth Cymru, 2022g).

**Ebrill 2023**
Sefydlwyd Bwrdd Cynghori ar y Warant i Bobl Ifanc er mwyn ‘cynghori ar bolisïau newydd a helpu i'w llunio, a rhagweld materion a mynd i'r afael â nhw’ (Llywodraeth Cymru 2024a, t. 12).

Cymorth Costau Byw ychwanegol (er enghraifft codwyd LCA i £40/wythnos; cynnydd mewn Arian Wrth Gefn AB (Llywodraeth Cymru, 2024); Lansio'r gwasanaeth Mewn Gwaith (Llywodraeth Cymru, 2024; Busnes Cymru, 2023).

Cyhoeddi buddsoddiad ychwanegol mewn prentisiaethau i gynnal y ffocws ar flaenoriaethau sgiliau technegol, anghenion yr economi sylfaenol a sectorau galw mawr fel Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ac i gyfrannu tuag at uchelgeisiau sero net Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023c, t. 8).

Cyhoeddi gwasanaethau Busnes Cymru newydd i gynorthwyo ymgysylltiad cyflogwyr a hunangyflogaeth pobl ifanc (er enghraifft, drwy raglen Syniadau Mawr Cymru) (Llywodraeth Cymru, 2022h).

Manyleb rhaglen TSC+ yn cadarnhau bod y bobl ifanc hynny sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol hefyd yn gymwys ar gyfer TSC+ (Llywodraeth Cymru, 2023e).

**Mehefin 2023**
Darparu cyllid ychwanegol ar gyfer Gyrfa Cymru i gyllido 500 o leoliadau gwaith i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 (Llywodraeth Cymru, 2023a).

**Tachwedd 2023**
Cyhoeddi canllawiau ar adnabod yn gynnar y Fframwaith (Llywodraeth Cymru 2024d).

**Rhagfyr 2023**
Diwedd swyddogol rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru.

**Chwefror 2024**
Cyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer TSC+ (Llywodraeth Cymru, 2024g).

**Ebrill 2024**
Diwedd cyllid ychwanegol CfW+ y Warant.
Codwyd yr oedran y daw pobl ifanc yn gymwys i dderbyn ReAct+ a CfW+ i 20 oed.
Cymhwystra cymhelliant cyflog (cymhorthdal) ReAct+ yn cael ei newid i bobl anabl yn unig.

**Awst 2024**
Medr yn gyfrifol am gyllido a rheoleiddio addysg drydyddol, prentisiaethau ac ymchwil.

**Ffynonellau ar gyfer y llinell amser:**

Busnes Cymru (2023) Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)

Busnes Cymru (2024) Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc | Busnes Cymru - Syniadau Mawr Cymru (llyw.cymru)

CCHA (2022) Cyfleoedd i Bobl Ifanc - Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd (ccha.org.uk)

Llywodraeth Cymru (2021a) "Bydd Gwarant i Bobl Ifanc yn helpu i sicrhau nad oes cenhedlaeth goll yng Nghymru", Vaughan Gething

Llywodraeth Cymru (2021b) Datganiad gan Weinidog yr Economi ar y Warant i Bobl Ifanc.

Llywodraeth Cymru (2021c) Llywodraeth Cymru'n lansio ymgyrch 'Bydd bositif' i godi ymwybyddiaeth o'r warant i bobl ifanc | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2021d) Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau drwy ymgyrch newydd | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2022a) Esblygiad dull cyllidebu ar sail rhyw yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2022b) Cyllid newydd i gefnogi llesiant meddyliol prentisiaid, hyfforddeion a dysgwyr a staff addysg bellach | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2022c) Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach

Llywodraeth Cymru (2022d). Atodiad i'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y Warant i Bobl Ifanc Awst 2022

Llywodraeth Cymru (2022e) employment-enterprise-bureau-addendum-to-young-persons-guarantee-integrated-impact-assessment.pdf (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru (2022f) Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: Trosolwg | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2022g) Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gymryd lle rhaglenni a ariennir gan yr UE i gefnogi pobl sydd â rhwystrau cymhleth i ddod o hyd i waith | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2022h) Darpariaeth Busnes Cymru i'r dyfodol: asesiad effaith [HTML] | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2023a) Cynllun profiad gwaith newydd i gefnogi pobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn | Newyddion Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2023b) Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd ieuenctid: adnabod yn gynnar | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2023c) Young Person's Guarantee generation Z series annual report: 2022 to 2023 (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru (2023d). Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru (2023e) jobs-growth-wales-plus-programme-specification-version-1-3.pdf (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru (2024a), Cyfres Z cenhedlaeth Gwarant Person Ifanc: adroddiad blynyddol 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2024b) £2.5 miliwn yn ychwanegol i helpu mwy o bobl ifanc i gael gwaith neu hyfforddiant pellach | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2024c) Adroddiad Sgwrs Genedlaethol

Llywodraeth Cymru (2024d) Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: adnabod yn gynnar, gwefan Llywodraeth Cymru

## Atodiad E. Amserlen gyfweld enghreifftiol i bobl ifanc

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Pobl a Gwaith i gynnal Gwerthusiad o'r Warant i Bobl Ifanc (y Warant). Fel rhan o'r gwerthusiad, rydym yn awyddus iawn i glywed gan bobl ifanc fel chi am eich profiadau o gymorth i'ch helpu i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig.

Byddwn yn defnyddio'r cyfweliad i'n helpu i ysgrifennu adroddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi. Ni fydd yr adroddiadau yn eich enwi. Os oes unrhyw beth arbennig o sensitif rydych am i ni ei drin fel 'oddi ar y cofnod' sy'n llywio ein dealltwriaeth, ond na fydd yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau, rhowch wybod i mi.

A allaf wirio eich bod wedi cael y daflen wybodaeth a'r Hysbysiad Preifatrwydd? A oes gennych unrhyw gwestiynau?

A ydych yn fodlon cymryd rhan yn y gwerthusiad? (Gofynnwch iddynt lofnodi'r ffurflen gydsynio)

A ydych yn fodlon i mi recordio'r cyfweliad?

**[Sicrhewch eu bod yn deall eu bod yn cymryd rhan yn wirfoddol, y gallant ofyn cwestiynau a'u bod yn cydsynio i gymryd rhan]**

**Nodiadau i'r Cyfwelydd**

Diben y cyfweliad yw annog a galluogi'r cyfwelai i adrodd ei stori am bontio o'r ysgol i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Ystyriwch ddefnyddio llinell amser i helpu i sefydlu'r gronoleg fras.

Dylai rhan gyntaf y cyfweliad ganolbwyntio ar annog y cyfwelai i adrodd ei stori yn ei eiriau ei hun. Pan fydd wedi adrodd ei stori, dylid defnyddio ail ran y cyfweliad i

egluro yn gyntaf unrhyw rannau o'r stori sy'n aneglur ac yna yn ail, i ofyn cwestiynau dilynol, sy'n annog y cyfwelai i ddisgrifio yn gyntaf:

- ei brofiadau o'r llwybrau o'r ysgol i fathau gwahanol o addysg, hyfforddiant (er enghraifft yr ysgol, coleg, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned) a chyflogaeth (gan gynnwys hunangyflogaeth) a;
- ei brofiadau o gymorth gan wahanol raglenni / lleoliadau addysg / gwasanaethau iechyd ac ati, ar wahanol gyfnodau o'i fywyd (awgrymir eich bod yn canolbwyntio ar brofiadau cymorth ôl-14) wrth iddynt geisio llywio gwahanol lwybrau ôl-ysgol.

Yna myfyriwch ar y profiadau hyn, a beth neu bwy, er enghraifft, oedd wedi ei annog i gychwyn y daith ar hyd llwybrau ôl-ysgol, stopio, neu newid (hynny yw, y cymhellion) a beth neu bwy oedd yn eu helpu neu eu rhwystro (er enghraifft eu galluoedd a/neu gyfyngiadau allanol). Hynny yw, defnyddiwch y fframwaith COM-B.

Wrth ystyried eu cynnydd ar hyd llwybrau, ystyriwch a oedd trobwyntiau allweddol, “adegau tyngedfennol” neu ddigwyddiadau/profiadau bywyd a arweiniodd at newid cyfeiriad, oedi, gwrthdroi ac ati neu a gyfrannodd at hyn, a/neu ymyriadau allweddol gan wasanaethau neu sefydliadau/unigolion.

Efallai y byddwch am annog myfyrio drwy gwestiynau agored (er enghraifft “a allwch ddweud rhagor wrthyf am…?”) a hefyd drwy brofi a mireinio eich dehongliad neu'ch ymdeimlad o'r hyn y maent wedi'i ddweud wrthych (er enghraifft “a fyddai'n deg dweud…?”).

Sicrhewch (os oes angen) bod gennych eu manylion cyswllt fel y gallwch anfon y daleb £20 atynt i ddweud diolch. Cadwch eu henw a'u cyfeiriad ar wahân i'r nodyn cyfweliad a'u dinistrio pan fyddwch wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn y daleb.

1. **A allwch ddechrau drwy ddweud wrthyf yn fyr amdanoch eich hun, beth rydych yn ei wneud nawr?**

2. **Diolch. Hoffwn i chi ddweud wrthyf, yn eich geiriau eich hun, am sut rydych yn meddwl y gwnaethoch** [mewnosod disgrifiad o'u sefyllfa/statws presennol yma – hynny yw, sut y gwnaethant gyrraedd y lle hwn yn eu bywydau]. **Mae gennyf ddiddordeb penodol yn yr hyn a wnaethoch a beth ddigwyddodd i chi yn eich cwpl o flynyddoedd olaf yn yr ysgol a beth ddigwyddodd ar ôl i chi adael yr ysgol? Ond eich stori chi yw hi a gallwch ddewis lle i ddechrau, yr hyn sy'n bwysig yn eich barn chi a'r hyn rydych am ei ddweud wrthyf.**

Awgrymiadau i'w cynorthwyo wrth iddynt adrodd eu stori ac i helpu i egluro eu stori am eu cyfnodau pontio

- Beth ddigwyddodd ar ôl i chi adael yr ysgol?
- Ble a phryd?
- Beth ddigwyddodd wedyn?

Awgrymiadau i annog myfyrio ar y stori a'u cyfnod(au) pontio.

- Sut oedd hyn yn gwneud i chi deimlo? Er enghraifft, a wnaethoch ei fwynhau? Pa mor hyderus oeddech chi'n teimlo?
- Beth oedd yn dda amdano? Beth nad oedd cystal amdano?
- Beth, os o gwbl, a'i gwnaeth yn anodd neu eich dal yn ôl? [Nodwch y gallai'r rhain fod yn ffactorau ‘mewnol’ – galluoedd – neu ffactorau allanol/cyfyngiadau/rhwystrau]
- Pam y gwnaethoch hyn? Beth wnaeth eich ysgogi? Pwy neu beth oedd wedi eich annog i wneud hyn? (Trafodwch y rôl a chwaraeir gan deulu, ffrindiau a chyfoedion, gwasanaethau cymorth; ystyriwch y broses o geisio cymorth a phenderfyniadau i ymgysylltu ag EET.)
- Pwy helpodd chi? Pwy oedd wedi eich dal yn ôl?
- Pa wahaniaeth a wnaeth i chi? Beth wnaethoch ei ennill? A oedd yn werth chweil? Pam? Beth ydych chi'n credu fyddai wedi digwydd neu wedi bod yn wahanol pe na baech wedi gwneud…[*x*]?
- Pam y gwnaethoch stopio bryd hynny? Pam y gwnaethoch ddechrau bryd hynny? (trafodwch y trobwyntiau a'r digwyddiadau a allai ysgogi ymgysylltu ac ymddieithrio rhag dysgu.)
- A oedd unrhyw gymorth roeddech ei eisiau neu'n teimlo bod ei angen arnoch nad oeddech yn gallu ei gael?
- Sut roedd….[*x*]….yn cymharu â…[*y*]? Beth oedd yn dda amdano? Beth nad oedd cystal amdano?
- Sut roedd cymorth gan ….[*x*]….yn teimlo o'i gymharu â chymorth gan…[*y*]? (A yw'r system gymorth yn teimlo'n gydlynol?)
- A fyddai'n deg dweud…..?
- Beth nesaf – a ydych yn bwriadu parhau i ddysgu? Pam?

Awgrymiadau i annog myfyrio ar rôl gwasanaethau cymorth

- Gwnaethoch sôn am [rhowch enw'r gwasanaeth/rhaglen]. A allwch ddweud rhagor wrthyf am hynny. Er enghraifft, a oedd yn ddefnyddiol? Pam?
- Ni wnaethoch sôn am [rhowch enw'r gwasanaeth/rhaglen er enghraifft Gyrfa Cymru ac ati]. A wnaethoch erioed siarad â [rhowch enw'r rôl er enghraifft Cynghorydd Gyrfaoedd].[26]

**3. Diolch. I orffen, hoffwn i chi ddweud wrthyf, yn eich geiriau eich hun, am ble rydych am fynd nesaf?**

- Pa mor hyderus ydych chi y bydd hyn yn digwydd? Beth yn eich barn chi fydd yn eich helpu? Beth allai eich atal?

**4. Diolch yn fawr iawn. A allaf wirio, a oes unrhyw beth arall am eich profiadau o'ch ychydig flynyddoedd olaf yn yr ysgol a'ch profiadau ar ôl yr ysgol, nad ydym wedi siarad amdano, sy'n bwysig yn eich barn chi?**

**5. Nid yw bob amser yn hawdd i bobl siarad am eu profiadau. A ydych yn credu y gallem fod wedi gwneud y cyfweliad hwn mewn ffordd wahanol, a fyddai wedi ei gwneud yn haws i chi ddweud wrthyf am eich profiadau/eich stori?**

**6. A oes gennych chi unrhyw gwestiynau yr oeddech am eu gofyn i mi?**

**Diolch i chi eto am eich amser ac am rannu eich profiadau.**

**Rhowch y cod a'r ddolen i'r holiadur ar-lein iddynt.**

[26] Nodwch, efallai y bydd pobl yn adrodd y stori ond ni fyddant yn sôn eu bod wedi siarad â chynghorydd gyrfaoedd neu raglen gyflogaeth oherwydd nad yw'n ymddangos mor bwysig iddynt.

## Atodiad F. Holiadur enghreifftiol gwybodaeth gefndir y cyfranogwyr

Diolch yn fawr iawn am gymryd rhan yn y gwerthusiad o'r Warant i Bobl Ifanc.

Er mwyn ein helpu i ddeall eich profiadau yn well, a fyddech cystal ag ateb y cwestiynau canlynol. Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei defnyddio i lunio proffil o gyfranogwyr yn yr astudiaeth ar gyfer yr adroddiad, a'n helpu i ddehongli'r canfyddiadau o'r cyfweliadau. Efallai y bydd rhai manylion yn cael eu defnyddio i ddisgrifio cyfweldigion unigol yn yr adroddiad, ond nid mewn ffordd a allai eich adnabod.

Er ein bod wir am wybod rhagor amdanoch, eich dewis chi yw a ydych am ateb y cwestiynau ai peidio. Gallwch ddewis ‘mae'n well gennyf beidio â dweud’ ar gyfer unrhyw un o'r cwestiynau os ydych yn dymuno.

Mae'r holiadur yn ddienw a dylai gymryd 5-10 munud i'w lenwi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â [enw a manylion cyswllt wedi'u hepgor]

1. Rwyf wedi darllen y wybodaeth uchod ac yn cytuno i gymryd rhan yn y gwerthusiad hwn drwy lenwi'r holiadur hwn.

- Ydw

2. Ysgrifennwch y cod a roddwyd i chi yma:

3. Beth yw eich oedran?

- 16
- 17
- 18
- 19
- 20
- 21
- 22
- 23
- 24
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

4. Beth yw eich rhyw? Defnyddiwch y rhyw a gofnodwyd ar eich tystysgrif geni neu eich Tystysgrif Cydnabod Rhywedd.

- Gwryw
- Benyw
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

5. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau rydych yn ystyried eich hun?

- Gwryw
- Benyw
- Anneuaidd
- Mae'n well gennyf beidio â dweud
- Arall (nodwch):

6. **Beth yw eich grŵp ethnig?**

- Mae'n well gennyf beidio â dweud

Gwyn

- Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon, neu Brydeinig
- Gwyddelig
- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- Unrhyw gefndir Gwyn arall

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshaidd
- Tsieineaidd
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall

Cymysg

- Gwyn a Du Caribïaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir cymysg arall

Du neu Ddu Prydeinig

- Caribïaidd
- Affricanaidd
- Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig, neu Garibïaidd arall

Grŵp Ethnig Arall

- Arabaidd
- Unrhyw Grŵp Ethnig arall (nodwch):

7. Beth yw eich prif iaith

- Saesneg
- Cymraeg
- Arall, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain (ysgrifennwch yr iaith yn y blwch isod)
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich prif iaith, beth yw eich prif iaith?:

8. Beth sy'n disgrifio'r lle rydych yn byw orau?

- Dinas
- Tref
- Arall (e.e. pentref)
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

9. Pa awdurdod lleol rydych yn byw ynddo ?

- Blaenau Gwent
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerdydd
- Sir Gaerfyrddin
- Caerffili
- Ceredigion
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Ynys Môn
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Castell-nedd Port Talbot
- Casnewydd
- Sir Benfro
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe
- Torfaen
- Bro Morgannwg
- Wrecsam
- Nid wyf yn byw yng Nghymru

10. A oes gennych gyflwr iechyd neu amhariad arall sy'n effeithio ar eich gweithgareddau o ddydd i ddydd? Gellir cynnwys materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn eich ymateb?

- Oes, mae'n amharu llawer ar fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd
- Oes, mae'n amharu ychydig ar fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd
- Nac oes,
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

Os oes, rhowch fanylion os hoffech:

11. A ydych wedi cael y cyflwr iechyd neu'r amhariad hwn am fwy na deuddeg mis NEU A ydych yn disgwyl i'r cyflwr iechyd neu'r amhariad hwn bara am fwy na deuddeg mis?

- Ydw
- Nac ydw
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

12. A oes gennych unrhyw angen dysgu ychwanegol? Mae angen dysgu ychwanegol yn golygu bod gennych anhawster llawer mwy wrth ddysgu na mwyafrif y bobl ifanc eraill o'r un oedran neu anabledd, ac mae hyn yn golygu bod angen darpariaeth addysgol ychwanegol arnoch. Roedd anghenion dysgu ychwanegol yn arfer cael eu galw'n 'anghenion addysgol arbennig'.

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn siŵr
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

13. A oes gennych unrhyw gymwysterau addysgol y gwnaethoch dderbyn tystysgrif ar eu cyfer?

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn siŵr
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

14. Ysgrifennwch enw'r cymhwyster lefel uchaf sydd gennych. Os ydych yn gwybod y lefel neu'r radd, a allwch gynnwys hyn. Er enghraifft: TGAU, gradd C / Sgiliau Hanfodol / Safon Uwch / Prentisiaeth Lefel Uwch:

15. Pan oeddech tua 14 oed a oedd yr enillydd incwm uchaf yn eich cartref:

- Yn gyflogai (yn gweithio i rywun arall neu gwmni)
- Yn hunangyflogedig (er enghraifft, rhedeg eu busnes eu hunain)
- Ddim yn gweithio
- Ddim yn siŵr
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

16. Beth oeddent yn ei wneud? Neu beth oedd eu swydd?

17. A ydych wedi treulio unrhyw gyfnod o amser mewn gofal? Mae bod mewn gofal yn golygu eich bod wedi treulio amser yn byw gyda gofalwyr maeth o dan ofal awdurdod lleol, mewn gofal preswyl (e.e. cartref plant), yn derbyn gofal gartref neu o dan orchymyn goruchwylio, neu mewn gofal gan berthynas gyda pherthnasau neu ffrindiau, naill ai'n swyddogol (e.e. gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig) neu'n anffurfiol (heb gymorth awdurdod lleol).

- Ydw
- Nac ydw
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

18. A oes gennych gyfrifoldeb am ofalu am blentyn neu blant (o dan 18 oed)?

- Oes - y person sy'n darparu mwyafrif y gofal ac y mae'r plentyn neu'r plant fel arfer yn treulio'r rhan fwyaf o amser gyda nhw (a ddisgrifir weithiau fel y 'prif ofalwr')
- Oes - y person sydd hefyd yn helpu i ofalu am y plentyn neu'r plant, ond nad yw'r plentyn neu'r plant / nad yw'r plentyn neu'r plant fel arfer yn treulio'r rhan fwyaf o amser gyda nhw (a ddisgrifir weithiau fel 'gofalwr eilaidd')
- Nac oes
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

19. Pa mor hen yw'r plentyn neu'r plant rydych yn gofalu amdano/amdanynt?

20. A ydych yn gofalu am unrhyw un, neu'n rhoi help neu gymorth iddynt, oherwydd bod ganddynt gyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol hirdymor, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

- Ydw
- Nac ydw
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

21. A oes unrhyw nodweddion neu amgylchiadau personol rydych yn credu sy'n berthnasol i'ch profiadau o addysg, hyfforddiant, gwaith, chwilio am waith neu ddefnyddio gwasanaethau cymorth yn y meysydd hyn? Os oes, a allwch eu disgrifio yn y blwch isod.

Rydych wedi cwblhau'r arolwg hwn!
Diolch am roi o'ch amser i ateb yr arolwg hwn.

Mae **cyfeiriadau** ar gyfer yr atodiadau hyn wedi'u cynnwys yn y prif adroddiad, sydd ar gael yn https://www.llyw.cymru/y-warant-i-bobl-ifanc-gwerthusiad-proses.